Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Heddlu Police DYFED-POWYS

# Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd Datganiad

# 2024/2025

**This document is available in English**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg**

Drafft Terfynol fersiwn 6

Cynnwys

**Crynodeb Gweithredol** ..... 3

**Cyflwyniad a chwmpas cyfrifoldebau** ..... 4

**Egwyddorion Llywodraethu Da** ..... 4

**1. Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu'r rheol gyfreithiol.** ..... 5

**2. Sicrhau didwylledd ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid** ..... 9

**3. Diffinio canlyniadau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.** 13

**4. Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau bwriadedig** ..... 19

**5. Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth ac unigolion o fewn yr endid** ..... 28

**6. Rheoli risgiau a pherfformiad trwy drefniadau rheoli mewnol cadarn a rheolaeth gref dros arian cyhoeddus,** ..... 29

**7. Rhoi arferion da ar waith mewn perthynas ag adrodd ac archwilio tryloywder er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol** ..... 33

**8. Adolygu a gwerthuso trefniadau llywodraethiant** ..... 36

**9. Casgliad a Datganiad Ymrwymiad** ..... 39

**Barn** ..... 42

**Casgliad** ..... 42

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Heddlu Police DYFED-POWYS

**Crynodeb Gweithredol**

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymrwymo i wella bywydau ei gymunedau, ac mae'r ymrwymiad hwn wedi'i nodi yng Nghynllun Heddlu a Throseddu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a strategaethau allweddol sy'n disgrifio sut y bydd yr heddlu'n mynd i'r afael â'r heriau sydd o'i flaen ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar draws pob maes plismona.

Bob blwyddyn mae'n ofynnol i'r heddlu gynhyrchu Datganiad Llywodraethiant Blynyddol sy'n disgrifio sut mae ei drefniadau llywodraethu corfforaethol wedi bod yn gweithio. Mae'r datganiad hwn yn rhoi sicrwydd ynghylch cydymffurfedd ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2025 a hyd at ddyddiad cymeradwyo datganiad cyfrifon 2024/2025.

Mae'r Cod Llywodraethiant Corfforaethol yn nodi sut rydym yn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau cywir yn y ffordd gywir yn unol â'n gweledigaeth a'n gwerthoedd. Er mwyn bod yn llwyddiannus, mae gan yr heddlu sylfaen gadarn o lywodraethu da a rheolaeth ariannol gadarn.

Mae'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn ffordd werthfawr o esbonio i'r gymuned, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill drefniadau llywodraethu'r heddlu a'r rheolaethau sydd ar waith ganddo.

Mae'n dangos ymhellach fod gan yr heddlu drefniadau effeithiol iawn ar waith mewn llawer o feysydd ac yn disgrifio sut mae'n parhau i adolygu, symleiddio a gwella prosesau i sicrhau bod y trefniadau hyn yn parhau i fod yn effeithiol nawr ac i'r dyfodol, a sut maent yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau newidiol y sefydliad a'r gymuned.

Cynhelir y broses adolygu mewn modd agored a gonest ac mae'n ystyried gweithgareddau a pherfformiad yr heddlu ar draws pob maes gweithgaredd. Wrth wneud hynny, mae'r adolygiad yn nodi meysydd lle gellir atgyfnerthu trefniadau, gan lywio'r camau gweithredu a gynhwysir bob blwyddyn yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol. Mae goruchwyliaeth a chraffu strategol ar y gwelliannau hyn wedi'i hen sefydlu yn yr heddlu.

Mae'r heddlu wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r materion a'r camau gweithredu llywodraethu a amlygwyd yn y flwyddyn nesaf, gan barhau i ddarparu diweddariadau ar y camau gweithredu a nodwyd bob blwyddyn yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol.

| | |
|---|---|
| Dafydd Llywelyn<br>Comisiynydd Heddlu a Throseddu | Ifan Charles<br>Prif Gwnstabl |

**Cyflwyniad a chwmpas cyfrifoldebau**

Mae’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a’r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am sicrhau bod eu busnes yn cael ei gynnal yn unol â’r gyfraith a’r safonau[1]; a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, rhoddir cyfrif amdano’n briodol, a’i fod yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd. Mae ganddynt ddyletswydd hefyd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y caiff eu swyddogaethau eu cyflawni.

Wrth gyflawni eu cyfrifoldeb cyffredinol, mae’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu eu materion a hwyluso’r gwaith o gyflawni eu swyddogaethau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y caiff system gadarn ei chynnal ar gyfer trefniadau rheoli mewnol gydol y flwyddyn, a bod trefniadau ar waith ar gyfer rheoli risg.

Mae’r datganiad hwn yn egluro sut mae’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl wedi cydymffurfio â’r Cod Llywodraethiant Corfforaethol, sy’n adlewyrchu’r egwyddorion yng nghanllawiau’r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth C*yflawni Arferion Llywodraethu Da:Nodiadau Canllaw ar gyfer Cyrff Plismona yng Nghymru a Lloegr Rhifyn 2016.* Mae hefyd yn bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y’u diwygiwyd), mewn perthynas â’r datganiad rheolaeth fewnol a chyhoeddiad y datganiad llywodraethiant blynyddol.

Mae’r ddogfen yn nodi canfyddiadau’r gwerthusiad o drefniadau llywodraethu ac fe’u cefnogir gan fatrics o dystiolaeth sy’n manylu ar sut mae’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl yn dangos egwyddorion ac ymddygiadau llywodraethu da.

**Egwyddorion Llywodraethu Da**

Mae’r Cyd-fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a’r gwerthoedd a ddefnyddir i lywodraethu Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Heddlu Dyfed-Powys, ar y cyd ac ar wahân, a chaiff ei adolygu a’i ddiweddaru’n flynyddol.

Mae’r Fframwaith yn galluogi’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl i fonitro cyflawniad yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throseddu a darparu gwasanaethau priodol, costeffeithiol gan gynnwys sicrhau gwerth am arian. Caiff y Cynllun Heddlu a Throseddu ei adolygu’n flynyddol pan ymgynghorir â phersonél allweddol i sicrhau bod y ddogfen yn parhau i fod yn gyfredol ac yn addas at y diben. Mae’r Cynllun Heddlu a Throseddu hefyd yn destun adolygiad allanol annibynnol gan y Cyd-bwyllgor Archwilio.

Mae’r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol hwn yn esbonio sut mae’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl wedi cydymffurfio â’r Cod Llywodraethiant Corfforaethol, sy’n adlewyrchu’r egwyddorion yng nghanllawiau Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth *Cyflawni Arferion Llywodraethu Da: Nodiadau Canllaw ar gyfer Cyrff Plismona yng Nghymru a Lloegr Rhifyn 2016.*

[1] Delivering-Good-Governance-in-Local-Government.pdf

Mae'r Cynllun Llywodraethiant Corfforaethol yn nodi'r paramedrau y mae'r ddau sefydliad yn cynnal eu busnes oddi mewn iddynt er mwyn sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal yn effeithlon a bod penderfyniadau'n agored, yn dryloyw, ac nid ydynt yn cael eu gohirio'n ddiangen.

1. **Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu'r rheol gyfreithiol.**

   Mae'r ddwy Gorfforaeth Undyn yn gweithredu mewn ffordd agored a thryloyw, ac mae prosesau ar waith i gefnogi'r egwyddor graidd o ran moeseg ac uniondeb, sy'n unol â Chod Moeseg y Coleg Plismona.

   Mae Cod Moeseg 2024 mewn dwy ran, ac nid yw'r naill na'r llall yn statudol.

   - Mae egwyddorion plismona moesegol yn darparu cefnogaeth wrth wneud penderfyniadau moesegol.
   - Mae canllawiau ar gyfer ymddygiad moesegol a phroffesiynol mewn plismona yn nodi'r disgwyliadau o ran sut y dylai gweithwyr proffesiynol plismona ymddwyn mewn ffordd sy'n ei gwneud yn haws iddynt eu deall a'u dilyn.

   Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n cydymffurfio â'r gyfraith, safonau moesegol priodol a safonau ymddygiad proffesiynol. I gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol):

   - Cod Moeseg (cod ymarfer, sef casgliad o egwyddorion a safonau ymddygiad proffesiynol)
   - Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd
   - Polisi Chwythu'r Chwiban (Datgelu Gwarchodedig)
   - Polisi Cysylltiad Hysbysadwy
   - Polisi Buddiannau Busnes a Gweithio Gwirfoddol
   - Polisi Camddefnyddio Sylweddau
   - Polisi Urddas yn y Gweithle
   - Polisi Tegwch yn y Gwaith
   - Polisi Aflonyddu Rhywiol yn y Gweithle
   - Polisi Cwynion Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu
   - Trefn Gwyno Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu

   Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn annog ac yn cefnogi swyddogion a staff i herio ymddygiadau sy'n gwneud i gydweithwyr deimlo'n anghyfforddus, yn ofnus neu'n chwithig a'u hadrodd yn gyfrinachol ac yn uniongyrchol i'r Adran Safonau Proffesiynol neu drwy 'Bad Apple', sef system adrodd gyfrinachol sy'n darparu llwyfan ar gyfer sgwrs ddienw ddwyffordd. Yn ogystal â hyn, mae gwybodaeth am sut y dylai'r heddlu adrodd am ddigwyddiad trwy linell uniondeb Crimestoppers ar gael ar fewnrwyd yr heddlu, ynghyd â llinell adrodd Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu.

   Mae gwybodaeth a dderbynnir o'r fforymau amrywiol hyn yn destun datblygiad deallusrwydd rhagweithiol ac ymholiadau monitro busnes cyfreithlon cymesur gan ymchwilwyr a dadansoddwyr yr Uned Gwrthlygredigaeth.

Lle bo'n briodol ac yn dibynnu ar yr amgylchiadau a'r wybodaeth, ymchwilir i achosion wedyn fel materion ymddygiad ac ystyrir cyfweliadau moesegol ac adolygiadau cyfnodol pellach. Ystyrir rhannu gwybodaeth â fetio, adnoddau dynol a/neu heddluoedd a sefydliadau eraill pan caiff ei ystyried yn angenrheidiol ac yn gymesur.

Mae mesurau ar waith i sicrhau nad yw gweithwyr y Comisiynydd na'r Prif Gwnstabl yn cael eu dylanwadu gan ragfarn, tuedd, neu wrthdaro buddiannau wrth ymdrin â rhanddeiliaid gwahanol. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cynnal cofnodion penderfyniadau sy'n cynnwys datganiad penodol lle mae'n cadarnhau na ddylanwadwyd yn amhriodol ar benderfyniad a wnaed.

Mae'r heddlu'n hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad drwy ystod o systemau a gweithdrefnau gan gynnwys rheoliadau ariannol, rheolau sefydlog, polisïau a gweithdrefnau.

Cyhoeddir Datganiadau o Fuddiant a Chofrestrau Rhoddion a Lletygarwch ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r heddlu, ac mae gweithdrefnau ar waith er mwyn galluogi cofnodi unrhyw wrthdaro buddiannau.

Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau tryloyw a hygyrch ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion.

Mae gan yr heddlu Adran Safonau Proffesiynol, a'i rôl yw cynnal safonau moesegol a phroffesiynol Heddlu Dyfed-Powys drwy reoli'r defnydd o reoliadau camymddwyn a gweinyddu cwynion gan aelodau'r cyhoedd yn erbyn swyddogion heddlu a staff yr heddlu islaw rheng y Prif Gwnstabl.

Cyfrifoldeb y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yw cwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl. Bydd y Comisiynydd yn penderfynu sut yr ymdrinnir â'r gŵyn ac a yw'n bodloni'r gofynion i gael ei chyfeirio at Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu.

Y Prif Weithredwr sy'n delio â chwynion yn erbyn staff o fewn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, ar ôl ymgynghori â'r Adran Safonau Proffesiynol lle bo angen (ar gyfer cyngor gweithdrefnol yn unig).

Cyfeirir cwynion yn erbyn y Prif Weithredwr at y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i'w hystyried. Panel Annibynnol yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys sy'n delio ag unrhyw gŵyn ffurfiol yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Fel rhan o gyfres sylweddol o ddiwygiadau graddol, diwygiwyd y rheoliadau ymddygiad yn ddiweddar i newid cyfansoddiad Paneli Gwrandawiadau Camymddwyn ar gyfer swyddogion heddlu, a oedd yn cynnwys disodli cadeiryddion â chymwysterau cyfreithiol a gosod Prif Swyddogion yn eu lle. Mae newidiadau pellach wedi cael eu gohirio gan y newid yn y llywodraeth ond byddant yn cynnwys y canlynol.

- Galluogi Prif Gwnstabliaid i apelio i Dribiwnlys Apeliadau'r heddlu os ydynt yn anghytuno â chanfyddiad neu ganlyniad gwrandawiad camymddwyn mewn perthynas â swyddog yn eu heddlu.

- Galluogi llwybr apelio cymharol i Dribiwnlys Apeliadau'r heddlu ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, os yw'r swyddog sy'n destun penderfyniad disgyblu yn Brif Gwnstabl.
- Rheoliadau Dirymu Fetio.

Mae gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu bellach fwy o gyfrifoldeb dros graffu ar y penderfyniadau a wneir gan baneli diswyddo drwy ddwyn penderfyniadau diswyddo i gyfrif. Mae'r Comisiynydd yn dewis aelodau annibynnol i eistedd ochr yn ochr â'r cadeirydd a chynghorwyr cyfreithiol cefnogol, er mwyn sicrhau bod unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei osgoi a chynnal tegwch unrhyw wrandawiadau.

Mae gan yr heddlu Uned Fetio sy'n rhan o'r adran Safonau Proffesiynol er mwyn sicrhau cydymffurfedd â Chod Ymarfer y Coleg Plismona a'r Arferion Proffesiynol Awdurdodedig diwygiedig ar gyfer fetio a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024. Mae'r Arferion Proffesiynol Awdurdodedig newydd yn cryfhau prosesau gan gyflwyno adolygiadau uniondeb a fetio blynyddol ac mae hyn, ochr yn ochr â niferoedd recriwtio uchel cyson, yr Arferion Proffesiynol Awdurdodedig diwygiedig, canlyniad Ymchwiliad Angiolini ac adroddiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi i fetio a chasineb tuag at fenywod wedi creu galw sylweddol yn yr Uned Fetio.

Oherwydd y lefelau uchel o alw, mae gan yr heddlu ôl-groniad o wiriadau sy'n cynnwys swyddogion, staff a chwnstabliaid arbennig sy'n gwasanaethu y mae eu gwiriadau wedi dod i ben neu sydd angen eu hadolygu. I gydnabod y galw sydd ar yr uned, mae tîm y Prif Swyddogion wedi cynyddu nifer y staff yn yr Uned Fetio o ddwy swydd cyfwerth ag amser llawn erbyn diwedd mis Rhagfyr 2024.

O ran achosion cwynion, cynyddodd nifer yr achosion ychydig o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'n bwysig nodi y gall un achos gynnwys sawl honiad, a gall achosion amrywio'n sylweddol o ran cymhlethdod a faint o waith ymchwilio sydd ei angen, felly nid yw'r ffigurau a ddangosir yn cynrychioli'r galw.

| | Dyfed-Powys | % newid | Cenedlaethol | % newid |
|---|---|---|---|---|
| 2020/2021 | 753 | - | 67732 | - |
| 2021/2022 | 913 | 21% | 75020 | 11% |
| 2022/2023 | 1058 | 14% | 81142 | 8% |
| 2023/2024 | 884 | -18% | 85458 | 5% |
| 2024/2025 | 901 | 2% | | |

Mae cynnydd yn y galw yn yr Uned Gwrthlygredigaeth (gan gynnwys cynnydd mewn atgyfeiriadau), ac o ran y galw ymchwiliol ar draws yr adran bu cynnydd mewn achosion camymddwyn difrifol, cynnydd mewn gwaharddiadau, a mwy o gymhlethdod mewn achosion camymddwyn fel heriau cyfreithiol.

O dan y ddeddfwriaeth gwynion bresennol, mae gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu rôl fwy i gynyddu annibyniaeth a gwella'r broses o ymdrin â chwynion. Os yw cwyn wedi'i chofnodi o dan

Atodlen 3 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 ac nad yw achwynydd yn fodlon â chanlyniad y gŵyn, gall gyflwyno cais am adolygiad i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys (os yw'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi'i nodi fel y corff adolygu perthnasol). Bydd yr adolygiad yn ystyried a yw canlyniad y gŵyn yn rhesymol a chymesur.

Cynhelir cyfarfodydd misol rhwng yr Adran Safonau Proffesiynol a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, lle trafodir materion penodol sy'n ymwneud â chwynion a cheir cyfle i ystyried unrhyw faterion goruchwylio a nodwyd o adolygiadau cwynion. Mae'r cyfarfodydd hefyd yn gyfle i ystyried themâu a dysgu sefydliadol. Yn ogystal â hyn, mae Bwrdd Sicrwydd yr Adran Safonau Proffesiynol chwarterol wedi'i sefydlu yn ystod y flwyddyn ariannol hon er mwyn caniatáu i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu graffu ar y maes busnes safonau proffesiynol.

Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, derbyniwyd cyfanswm o 61 o adolygiadau o'i gymharu â 59 y flwyddyn flaenorol. Mae cyfanswm o 64 o adolygiadau cwynion wedi'u cwblhau gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ystod y cyfnod hwn, ac mae nifer fach ohonynt wedi parhau o'r flwyddyn flaenorol.

O'r 64 o adolygiadau hynny a gwblhawyd, cadarnhawyd 12, a ni chadarnhawyd 52. Arweiniodd 12 adolygiad at argymhellion a nodwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Mae tri adolygiad yn cael eu trosglwyddo i'r flwyddyn ariannol newydd, oherwydd y dyddiad y cyflwynwyd y cais am adolygiad.

Mae'r heddlu'n parhau i hyrwyddo diwylliant iach o rannu gwybodaeth sydd i gynnwys dysgu o gamgymeriadau'r gorffennol a deall ble mae problemau'n digwydd.

Mae gwersi a ddysgwyd wedi'u cynnwys fel eitem sefydlog ar yr agenda ar bob bwrdd strategol ac mae'n cynnwys crynodebau o gyfraith achosion, Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, y Coleg Plismona, iechyd a diogelwch, y byd academaidd, a'r Fowt Ddysgu fewnol. Bydd adroddiadau chwarterol yn 2025 yn cael eu huwchlwytho gyda'r sgan misol sy'n rhagweld datblygiadau'r dyfodol ar y fewnrwyd, a fydd yn galluogi mynediad at ddysgu i bob aelod o staff ar draws yr heddlu.

Mae'r Comisiynydd yn ddarostyngedig i God Ymddygiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a llw ei swydd, ac mae'r Prif Gwnstabl (a phob unigolyn arall sy'n gweithio ym maes plismona) yn ddarostyngedig i God Moeseg y Coleg Plismona, gyda'r ddau yn cadw at egwyddorion Nolan.

Prif Weithredwr y Comisiynydd Heddlu a Throseddu hefyd yw'r Swyddog Monitro statudol dynodedig, gyda chyfrifoldeb am gynghori ar gyfreithlondeb a phriodoldeb gweithredoedd a phenderfyniadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn creu amgylchedd ble y gall pob aelod o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r heddlu gyflawni eu cyfrifoldebau yn unol ag arferion da.

Caiff unrhyw ganllawiau a gyflwynir gan bartneriaid a chyrff allweddol, gan gynnwys y Coleg Plismona, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, eu lledaenu ar draws yr heddlu.

Yn yr un modd, caiff arferion gorau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eu sicrhau drwy Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Cymdeithas Prif Weithredwyr Plismona a Throseddu a Chymdeithas Trysoryddion Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a chânt eu lledaenu ymhlith staff Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

## 2. Sicrhau didwylledd ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid

Mae gan gomisiynwyr gyfrifoldeb statudol i ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd, a rhaid iddynt geisio barn y gymuned er mwyn creu cyswllt pontio rhwng yr adran blismona a'r cyhoedd. Mae'r ymgysylltiad hwn yn llywio'r blaenoriaethau lleol o ran plismona a osodwyd gan y Comisiynydd, fel y manylir arnynt yng Nghynllun Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys y mae'r Prif Gwnstabl yn ddarostyngedig iddo.

Yn 2024, lansiodd yr heddlu Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu newydd (2024-2028) yn nodi dull cyfathrebu ac ymgysylltu hirdymor yr heddlu. Mae'r fframwaith wedi'i lywio gan yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru sy'n cynnwys set gyffredinol o egwyddorion sydd wedi'u hanelu at sefydliadau'r sector cyhoeddus er mwyn ysgogi ymgysylltiad cadarnhaol ac ystyrlon â chymunedau. Mae'r heddlu'n defnyddio cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol ar gyfer y canlynol:

- Cyflwyno gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu cyson ac effeithiol sy'n cefnogi cyflawniad blaenoriaethau ac yn cynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd
- Bod yn ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth gywir ac amserol, gan gadw pobl yn ddiogel rhag niwed, yn enwedig mewn argyfyngau ac amseroedd argyfwng.
- Gwahodd a hwyluso cyfranogiad cymunedol mewn ymchwiliadau i droseddau a digwyddiadau.
- Darparu cefnogaeth effeithiol ar gyfer ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt a pharhaus.
- Darparu mecanweithiau ar gyfer sgyrsiau dwyffordd, ymgysylltiol, gonest a pharchus.
- Atal troseddu a lleihau niwed yn ein cymunedau.
- Adeiladu perthnasoedd â'r rhai sydd ein hangen fwyaf ond sy'n ymddiried leiaf ynom ni.
- Sicrhau ein bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn cynnal cefnogaeth a chydsyniad ein cymunedau.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd am eu gwaith a'u cyflawniadau trwy eu gwefannau priodol, cyfryngau cymdeithasol, ac adroddiadau newyddion lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi adroddiadau blynyddol, e-fwletinau misol y Comisiynydd, agendâu a chofnodion cyfarfodydd cyhoeddus, yn ogystal â chofnodion unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Comisiynydd.

Drwy gydol 2024/2025, parhaodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i fod wedi ymrwymo i ymgysylltu'n ystyrlon â'r gymuned ledled ardal Dyfed-Powys. Dros y flwyddyn, cynhaliodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu wyth diwrnod ymgysylltu â'r gymuned, gan roi cyfle iddo ef a

staff ei swyddfa gyfarfod yn uniongyrchol â thrigolion, grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid lleol er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n llywio blaenoriaethau ac arferion plismona.

Cyflwynodd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ddull newydd eleni a chyflwyno cyfarfodydd cyhoeddus chwarterol a chymorthfeydd cymunedol. Creodd y sesiynau hyn fwy o gyfleoedd i'r cyhoedd gwrdd â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'i dîm, gofyn cwestiynau, a chodi materion yn uniongyrchol gyda'r swyddfa.

Roedd y diwrnodau ymgysylltu â'r gymuned yng Nghaerfyrddin, Llanbedr Pont Steffan a Sir Benfro yn arbennig o boblogaidd a gwerthfawr. Oherwydd y diddordeb lleol cryf a'r cydweithrediad â phartneriaid lleol bu'r digwyddiadau hyn yn rhai cofiadwy, ac maent yn parhau i lywio ein gwaith.

Yn ogystal â threfnu diwrnodau ymgysylltu â'r gymuned, mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cydweithio â'r heddlu er mwyn mynychu digwyddiadau ar raddfa fawr ar draws ardal yr heddlu ac ymgysylltu â'r cyhoedd a phartneriaid. Yn ystod 2024/2025, cynhaliodd y Comisiynydd stondin yn Eisteddfod yr Urdd ym Mhowys, sef un o wyliau ieuenctid mwyaf Ewrop. Galluogodd y digwyddiad wythnos o hyd drafodaethau ar ddiogelwch pobl ifanc, eu llesiant a'u hymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth.

Ym mis Gorffennaf, cynhaliodd y Comisiynydd stondin yn Sioe Frenhinol Cymru, lle lansiwyd ymgynghoriad y Cynllun Heddlu a Throseddu, gan roi cyfle i'r cyhoedd lywio blaenoriaethau plismona ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Roedd mynychu Sioe Sir Benfro ym mis Awst yn gyfle i gael sgyrsiau pwysig gyda thrigolion lleol am ddiogelwch cymunedol a throseddau gwledig, yn ogystal â chyfle arall i atgyfnerthu ein presenoldeb a'n gwelededd yn y gymuned.

Mae ymgysylltu â phobl ifanc wedi bod yn ffocws allweddol eleni. Am y tro cyntaf yn Nyfed-Powys, fe wnaeth Llysgenhadon Ieuenctid ddal y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i gyfrif mewn sesiwn bwrpasol o'r Bwrdd Plismona yn dilyn eu hymgynghoriad o'r enw Y Sgwrs.

Uchafbwynt arall oedd gweld y Llysgenhadon Ieuenctid yn cymryd rhan mewn panel craffu ar stopio a chwilio a defnyddio grym. Roedd eu parodrwydd i adolygu fideo a rhoi adborth meddylgar yn ysbrydoledig ac yn dangos eu rôl gynyddol mewn tryloywder ac atebolrwydd yr heddlu.

Mae ein Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr wedi parhau i ddarparu mewnbwn hanfodol. Cefnogodd yr aelodau ddatblygiad E-bit, sef teclyn cofnodi troseddau newydd, drwy gynnig adborth a chymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb gyda Chanolfan Plismona Seiliedig ar Dystiolaeth Caergrawnt.

Adolygodd a chyfrannodd y fforwm hefyd at arolwg a anelir at ddioddefwyr treisio a throseddau rhywiol difrifol, gan sicrhau bod lleisiau dioddefwyr yn parhau i fod yn ganolog i wella ymgysylltiad. Yn ogystal, cyfrannodd rhai aelodau at Gynllun Gweithredu Hil yr heddlu, gan gefnogi gwaith i sicrhau bod pobl Ddu sy'n dioddefwyr troseddau yn cael eu cynrychioli a'u cefnogi'n briodol.

Roedd gwrando ar y cyhoedd wrth wraidd ein gwaith i ddatblygu Cynllun Heddlu a Throseddu 2025–2029. Ymatebodd dros 900 o bobl i'n harolwg, a siaradom â llawer mwy drwy sgyrsiau wyneb yn wyneb a thrwy rannu'r ymgynghoriad drwy amrywiaeth o sianeli cyfathrebu.

Ymhlith y prif bryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad roedd plismona gweladwy, ymddygiad gwrthgymdeithasol, a gwell cefnogaeth i ddioddefwyr. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u hadlewyrchu yn y Cynllun Heddlu a Throseddu newydd.

Fel rhan o ymgynghoriad y Cynllun Heddlu a Throseddu, cysylltodd y Comisiynydd a SCHTh ag ystod eang o sefydliadau cymunedol a chynnal cyfres o sesiynau grŵp ffocws er mwyn casglu adborth gan leisiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Cynhaliwyd nifer o sesiynau grŵp ffocws gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan sicrhau bod cyfle gan bawb ledled Dyfed-Powys i gyfrannu eu barn.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu hefyd yn comisiynu gwasanaethau'n uniongyrchol gan ddarparwyr arbenigol er mwyn helpu i atal troseddu, cefnogi pobl fregus a mynd i'r afael â materion sy'n bwysig i gymunedau Dyfed Powys. Nid yw'r rhestr o wasanaethau yn gynhwysfawr ond maent yn cynnwys:

- Gwasanaethau Cymorth i Ddioddefwyr sy'n darparu cymorth cyfrinachol a rhad ac am ddim i bobl sydd wedi cael eu heffeithio gan droseddu ledled Dyfed Powys
- Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol sydd wedi'u hanelu at leihau niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, ac sydd hefyd yn gweithio i nodi ac ymgysylltu â throseddwyr o'r adeg y cânt eu harestio hyd at eu dedfrydu er mwyn sicrhau bod y gyfran fwyaf posibl o unigolion yn cwblhau rhaglenni triniaeth yn llwyddiannus.
- Gwasanaethau Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol sy'n mynd i'r afael â diogelwch dioddefwyr sydd mewn perygl uchel o niwed gan bartneriaid agos, cyn-bartneriaid neu aelodau o'r teulu, gan gynnwys sicrhau diogelwch unigolion a diogelwch eu plant
- Gwasanaeth cymorth a chyfryngu Llamau i bobl ifanc sydd ar goll, gan ddarparu gwasanaeth ôl-drafod, cymorth a chyfryngu i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yr adroddwyd eu bod ar goll ac sydd mewn perygl o gamfanteisio'n rhywiol neu o ddioddef erledigaeth.
- Cefnogaeth Llwybrau Newydd i ddioddefwyr cam-drin rhywiol sy'n darparu mynediad 24 awr i gefnogaeth argyfwng i ddioddefwyr, diogelu a gofal clinigol a fforensig arbenigol
- Pobl: Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr sy'n ceisio mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol yn llawer cynharach yn ystod llwybr troseddu unigolyn, gan fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu a materion iechyd a chymunedol cysylltiedig.

Mae ymgynghori â'r cyhoedd yn broses barhaus ac mae'n effeithiol wrth roi cyfleoedd i'r cyhoedd rannu eu barn â'r Comisiynydd ac i lywio'r broses gwneud penderfyniadau. Cynhelir ymgynghoriad wedi'i dargedu ar gyfer penderfyniadau penodol megis praesept y dreth gyngor.

Mae'r Strategaeth Ymgysylltu â'r Gweithlu newydd a lansiwyd yn 2024 yn cynnwys canllaw i bob rheng ar ba ddulliau ymgysylltu y dylid eu defnyddio i gynnwys cyfleoedd cysylltu â llawr gwlad yr heddlu, neu "*Back to the Floor*" pan fo uwch arweinwyr yn treulio amser gyda staff er mwyn profi, dysgu a deall eu heriau gyda'r bwriad o wella a chefnogi'r gweithlu. Cynhelir digwyddiadau ymgysylltu a disgwyliadau hefyd gan uwch arweinwyr wyneb yn wyneb â'u timau.

Mae'r strategaeth yn nodi disgwyliadau rheolwyr a goruchwylwyr o ran ymgysylltu ac yn pwysleisio rôl pob unigolyn wrth gymryd rhan mewn gweithgarwch ymgysylltu dwyffordd i wneud y broses yn ystyrlon ac yn gynhyrchiol.

Cynhaliwyd sioeau teithiol Prif Swyddogion ar draws y pedair sir ym mis Ionawr a mis Chwefror 2025 lle ymwelodd tîm y Prif Swyddogion ag is-adrannau ac adrannau er mwyn trafod cynlluniau, gan gynnwys Cynllun Heddlu a Throseddu'r Comisiynydd, a dyheadau ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan ymateb i gwestiynau a gwrando ar adborth. Roedd y cyflwyniadau'n cynnwys fideo dathlu yn tynnu sylw at gyflawniadau allweddol o'r flwyddyn flaenorol, a darllediad o ffilm recriwtio newydd yr heddlu.

Yn fewnol, mae swyddogion heddlu, staff yr heddlu a staff Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf drwy dudalennau mewnrwyd yr Heddlu (DPPi2) gan gynnwys blogiau Prif Swyddogion a chyfleoedd i ofyn cwestiynau i'r Prif Gwnstabl. Mae #DyddGwenerFfilm wedi parhau i ddarparu ffilm wythnosol fer sy'n tynnu sylw at waith allweddol, newyddion a chyflawniadau o bob rhan o'r heddlu, gyda chyfraniadau gan y Comisiynydd a'r Prif Swyddogion.

Mae Cynllun Busnes 2024/2025 Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cynnwys datblygu Strategaeth Gyfathrebu Fewnol er mwyn codi proffil gwaith y Comisiynydd ac i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gynnwys gwybodaeth a diweddariadau ar fentrau a gwasanaethau a ariennir gan y Comisiynydd.

Ym mis Mai 2024, etholwyd Dafydd Llywelyn am drydydd tymor. Defnyddiodd etholiadau blaenorol ar gyfer y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr system bleidleisio atodol, sy'n wahanol i etholiad arferol. Fodd bynnag, yn dilyn newidiadau deddfwriaethol, defnyddiodd etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu 2024 y system bleidleisio 'am y cyntaf', lle pleidleisiodd pleidleiswyr drwy ddewis un ymgeisydd ar y papur pleidleisio sef yr un system ag etholiadau Senedd y DU ac etholiadau lleol yng Nghymru a Lloegr.

Bydd y Panel Heddlu a Throseddu, sy'n cynnwys aelodau o awdurdodau lleol ac aelodau annibynnol, yn craffu ar waith y Comisiynydd ac yn ymgynghori â'u cymunedau lleol. Rôl y panel yw craffu ar weithredoedd a phenderfyniadau'r Comisiynydd, gan ddarparu cefnogaeth a'i herio drwy gymryd rôl cyfaill beirniadol.

Yn 2024/2025 cynhaliodd y Panel Heddlu a Throseddu nifer o sesiynau is-grŵp gyda chynrychiolwyr yr heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu er mwyn datblygu dealltwriaeth y paneli o bynciau allweddol. Cefnogodd hyn y panel i ddarparu lefel fwy o graffu ar faterion o'r pryder mwyaf i'r cyhoedd.

Mae'r Comisiynydd yn cyhoeddi gwybodaeth yn rhagweithiol er mwyn cynnal tryloywder a didwylledd gyda'r cyhoedd ar y wefan, sy'n sicrhau ei fod yn bodloni'r rhwymedigaethau o dan orchymyn Cyrff Plismona Etholedig (gwybodaeth benodedig) 2011 (fel y'i diwygiwyd) a gofynion o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Ar 9 Mai 2024, cyhoeddwyd hysbysiad gorfodi i'r heddlu gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am drin ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn wael. Roedd y camau a gymerwyd gan yr heddlu yn cynnwys gofyniad i gynyddu lefel cydymffurfio (dros 90%) cyn Tachwedd 2024.

Cydymffurfiwyd â'r hysbysiad gorfodi a daeth monitro ffurfiol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i ben ym mis Medi 2024, ar ôl i'r holl geisiadau oedd yn weddill o'r data dan sylw gael eu hateb. Roedd yr ôl-groniad o achosion a oedd yn wedi cymryd yn hwy na'r amser cwblhau o 20 diwrnod erbyn mis Medi wedi lleihau i chwech, o'i gymharu â 167 ym mis Ebrill 2024. Roedd y gyfradd gydymffurfio wedi gwella o 45% ym mis Ebrill i 87% ym mis Medi. Cynhaliwyd y newidiadau hyn am weddill 2024 gyda'r gyfradd gydymffurfio yn cyrraedd 94% ym mis Rhagfyr 2024.

Mae trefniadau craffu mewnol ar waith er mwyn cynnal archwiliadau o'r rhwymedigaethau statudol ar gyfer tryloywder. Gwnaed gwaith sylweddol wrth i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu drosglwyddo i wefan[2] newydd er mwyn sicrhau bod gwaith cydymffurfedd yn cael ei wneud yn rheolaidd i sicrhau bod y wefan yn parhau i fod yn gydymffurfiol ac yn gyfredol.

Mae gan y Prif Gwnstabl gyfrifoldeb statudol i wneud trefniadau er mwyn casglu barn y cyhoedd ar drosedd ac anhrefn yn eu hardal. Mae'r heddlu'n ymgysylltu â'r cyhoedd ar sawl lefel, o gyswllt dyddiol ar y stryd a galwadau ffôn i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd cyhoeddus ac arolygon ffurfiol mewn perthynas â blaenoriaethau, lefelau ac ansawdd gwasanaeth.

Adnewyddodd yr heddlu ei gontract gyda chwmni ymchwil gymdeithasol annibynnol a phartner cwmni Market Research Society er mwyn cynnal arolygon bodlonrwydd dioddefwyr. Mae'r cyflenwr, sy'n gweithio ar ran yr heddlu, yn cynnal arolwg o ddioddefwyr er mwyn mesur lefelau boddhad a nodi cyfleoedd i wella gwasanaethau drwy gyfweliadau dros y ffôn. Adnewyddwyd y contract ym mis Mawrth 2025 i bara tan fis Mawrth 2028 gyda'r opsiwn i'w ymestyn yn flynyddol tan fis Mawrth 2030.

Derbynnir canfyddiadau misol o arolygon boddhad dioddefwyr a'u cyflwyno o fewn dangosfwrdd PowerBI sy'n eitem agenda sefydlog i'w thrafod ym mhob cyfarfod Perfformiad yr Heddlu, gan ddarparu'r gallu i nodi tueddiadau a themâu sy'n codi dro ar ôl tro. Yn ogystal, drwy groesgyfeirio canlyniadau prosesau sicrhau ansawdd mewnol, mae'r heddlu'n cael cipolwg ar feysydd gwaith da yn ogystal â meysydd sydd angen eu gwella.

**3. Diffinio canlyniadau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.**

Un o rolau allweddol Comisiynydd Heddlu a Throseddu yw cynhyrchu Cynllun Heddlu a Throseddu sy'n nodi'r cyfeiriad ar gyfer plismona am y pedair blynedd nesaf.

Datblygwyd Cynllun Heddlu a Throseddu (2025–2029) newydd eleni ac mae'n cael ei gefnogi gan Gynllun Cyflawni'r heddlu a ddatblygwyd gan y Prif Gwnstabl. Mae Fframwaith Perfformiad newydd yn sail i'r Cynllun Heddlu a Throseddu, ac adroddir ar gynnydd yn ei erbyn i'r Comisiynydd yn y Bwrdd Perfformiad Strategol a gynhelir yn gyhoeddus bob chwarter.

[2] https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae'r cylch cynllunio strategol a sicrwydd newydd yn cynnwys adrannau lle mae pob adran yn dangos sut mae eu swyddogaethau'n cyfrannu at gyflawni Blaenoriaethau'r heddlu a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu.

Cyflawnwyd y targed cynnal niferoedd swyddogion yr heddlu a osodwyd gan y Swyddfa Gartref sef 1314 drwy gydol y cyfnod adrodd hwn trwy dderbyn swyddogion newydd ddwywaith y flwyddyn. Gwellodd yr heddlu amrywiaeth ei weithlu ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac mae cefnogaeth ar waith i gynnwys gweithredu cadarnhaol. O'r data a gofnodwyd gan ein swyddogion (Mawrth 2025), cyfran y swyddogion benywaidd yw 39% (cynnydd o 2% ar y flwyddyn flaenorol) a chyfran y swyddogion sy'n nodi eu hunain fel Du, Asiaidd, Cymysg neu Arall yw 2.3% (gostyngiad o 0.1% ar y flwyddyn flaenorol). Er mwyn parhau i wella amrywiaeth yr heddlu byddwn yn parhau i wneud y canlynol:

- Denu unigolion o'n cymunedau amrywiol i wneud cais am rolau staff a swyddogion o fewn Heddlu Dyfed-Powys a'u cefnogi i wneud hynny drwy barhau i gefnogi sesiynau galw heibio a digwyddiadau recriwtio a chefnogi ymgeiswyr drwy'r broses recriwtio sy'n gofyn am gefnogaeth gweithredu cadarnhaol.
- Sicrhau ein bod yn cadw ein gweithlu amrywiol drwy fonitro effeithiol a mesurau cefnogol.
- Dileu rhwystrau i ddatblygiad a nodwyd gan ein gweithlu ac ymchwil genedlaethol a chefnogi ein gweithlu amrywiol yn gadarnhaol i geisio datblygiad o fewn Heddlu Dyfed-Powys.

Rhywfaint o'r gwaith sy'n cael ei wneud yw hyrwyddo rolau arbenigol i gynyddu cynrychiolaeth ar draws adrannau/rhengoedd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan ddarparu mewnbynnau gweithredu cadarnhaol i'r grwpiau arweinyddiaeth i sicrhau bod goruchwylwyr yn cefnogi eu timau'n effeithiol, gan annog grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i fynychu'r rhaglen Ysbrydoli.

O fis Ebrill 2024 ymlaen, roedd heddluoedd yn gallu gweithredu cymysgedd o bum rhaglen a oedd yn cydweddu â'i gilydd a oedd yn cynnig llwybr mynediad i gwnstabliaid yr heddlu. Roedd y rhain yn cynnwys y pedwar llwybr sefydledig a gyflwynir ar y cyd gan heddluoedd gyda darparwr addysg uwch, ynghyd â Rhaglen Mynediad Cwnstabliaid yr Heddlu newydd y gall heddluoedd ei chyflwyno heb bartneriaid allanol nac achrediad os ydynt yn penderfynu gwneud hynny.

Ystyrir bod nifer y llwybrau mynediad i'r heddlu yn ddryslyd i ymgeiswyr ac yn dilyn arolwg a ddosbarthwyd i 400 o swyddogion a oedd wedi mynd trwy'r llwybrau mynediad, roedd 52%, dros eu hanner, yn cefnogi cyflwyno llwybr Rhaglen Mynediad Cwnstabliaid yr Heddlu newydd.

Ym mis Mai 2025, cymeradwyodd yr heddlu gyflwyno Rhaglen Mynediad Cwnstabliaid yr Heddlu, wedi'i achredu gyda llwybr mynediad sefydliad addysg uwch a bydd yn defnyddio Rhaglen Mynediad Cwnstabliaid yr Heddlu fel y prif lwybr ar gyfer mynediad i'r heddlu.

Mae'r newid wedi'i gynllunio er mwyn sicrhau gallu'r heddlu i gynnal niferoedd swyddogion a pharhau i ddenu a chadw talent mewn marchnad gyflogaeth gynyddol heriol.

Ym mis Ionawr 2025, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref y Warant Plismona Bro newydd sy'n anelu at ychwanegu 13,000 o swyddogion at gymunedau erbyn 2029. O'r £200 miliwn ar gael i heddluoedd, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cael £1.4 miliwn o'r grant i gynyddu ein timau

plismona bro ac atal. Er mwyn galluogi hyn, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi dyrannu cyllid ychwanegol er mwyn galluogi recriwtio staff yr heddlu a rhyddhau mwy o swyddogion i'r rheng flaen.

Cyn y cyhoeddiad, cynhaliodd yr heddlu adolygiad llawn o Blismona Bro ledled yr heddlu rhwng mis Ebrill a mis Medi 2024. Roedd y newidiadau yn dilyn yr adolygiad yn cynnwys ail-frandio Plismona Bro i Dimau Plismona ac Atal Bro a datblygu strategaeth, cynllun cyflawni, fframwaith perfformiad a chynllun ymgysylltu newydd â chymunedau ar gyfer Timau Plismona ac Atal Bro.

Adolygwyd llywodraethu'r Timau Plismona ac Atal Bro hefyd i gynnwys grŵp tactegol Timau Plismona ac Atal Bro misol newydd a grŵp strategol Timau Plismona ac Atal Bro misol newydd sy'n adrodd i'r Bwrdd Plismona Gweithredol dan gadeiryddiaeth y Prif Gwnstabl Cynorthwyol.

Mae'r heddlu wedi cyflawni dau gam cyntaf y Cynllun Gofal Cywir Unigolyn Cywir sy'n darparu fframwaith ar gyfer cynorthwyo heddlu i benderfynu pryd y dylent fod yn rhan o ymateb i ddigwyddiadau yn ymwneud â phobl ag anghenion iechyd meddwl. Mae'r gwaith yn cysylltu pobl yn rhagweithiol â'r gofal cywir ac yn cefnogi'r defnydd priodol o lwybrau atgyfeirio trwy'r broses flaenoriaethu gychwynnol.

Mae'r dull graddol hwn wedi rhoi amser i'r heddlu ymgysylltu'n ystyrlon â phartneriaid ac asiantaethau eraill sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y newidiadau hyn a rhoi'r amser sydd ei angen ar bartneriaid i addasu eu gwasanaethau er mwyn sicrhau nad effeithir yn andwyol ar ganlyniadau cleifion.

Drwy gefnogi egwyddorion y cynllun Gofal Cywir Unigolyn Cywir, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gallu cynorthwyo partneriaid i adnabod yn gyflym pobl sy'n byw yn y gymuned sydd angen eu cefnogaeth a chaniatáu cyflwyno gofal mwy priodol yn gynharach, gan atal dirywiad neu alwadau ailadroddus gan unigolion a gwella argaeledd gwasanaethau i bawb.

Cefnogodd, heriodd a hwylusodd Rhaglen Adolygu'r Heddlu'r broses o nodi gwelliannau gweithredol a llesiant yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Roedd y gwaith drwy gydol 2024/2025 yn cynnwys:

- Cyflwyno'r E-Bit (offeryn ymchwilio sy'n seiliedig ar dystiolaeth) sy'n cefnogi adnabod troseddau nad ydynt yn ddatrysadwy
- Cyflwyno model gweithredu newydd ar gyfer Timau Plismona ac Atal Bro gan gynnwys y Ganolfan Atal Troseddau Ganolog, Gwasanaeth Heddlu Ysgolion, a dosbarthiad gwell o swyddogion a swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu (SCCHau)
- Cyflwyno model yr Uned Ymateb Rhithwir i Gam-drin Domestig
- Cyflwyno model gweithredu newydd a chynyddu adnoddau yng Nghanolfan Gyfathrebu'r heddlu
- Cyflwyno Strwythur Plismona Gweithredol Uwch diwygiedig
- Cynnydd yn nifer y goruchwylwyr mewn ardaloedd lle mae nifer fawr o gwnstabliaid o gymharu â rhingylliaid wedi'u nodi
- Gwerthusiad o leoli staff a swyddogion o fewn plismona ymatebol a dalfeydd

- Gwerthusiad o'r dull o gofnodi troseddau er mwyn gwella amseroldeb a chywirdeb data
- Gwerthusiad o ddull y sefydliad o ymchwilio a defnyddio staff a swyddogion o fewn yr Adran Ymchwilio i Droseddau, Unedau Ymchwilio Lleol, timau'r Cyd-uned Ymchwilio, ac Unedau Rheoli Troseddwyr
- Adolygiad o reoli rota a'r broses gyffredinol o reoli dyletswyddau

Daeth Rhaglen Adolygu'r Heddlu i ben ym mis Chwefror 2025, gyda Thîm Adolygu'r Heddlu yn parhau i gyflawni gwelliannau busnes gweithredol ar gyfer y presennol a'r dyfodol fel tîm model gweithredu'r heddlu.

Cafodd nifer o strategaethau eu hadnewyddu neu eu datblygu yn ystod y cyfnod adrodd hwn i gyd-fynd â'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd.

Ym mis Mai 2024, lansiodd yr heddlu Strategaeth Rheoli Perfformiad newydd (2024) sy'n cynnwys y methodolegau a'r offer y mae'r heddlu'n eu defnyddio i fonitro, adolygu, adrodd a gwella effeithiolrwydd yr heddlu.

Mae dadansoddeg data yn chwarae rhan ganolog wrth nodi meysydd lle gellir defnyddio adnoddau'n well trwy gynnig cipolwg ar faterion nad ydynt efallai'n weladwy ar unwaith, a thrwy fanteisio ar systemau deallusrwydd busnes mae'r heddlu'n gallu trawsnewid data crai yn fewnwelediadau ymarferol yn well.

Mae'r gallu i gasglu gwybodaeth a deallusrwydd amserol a chywir yn integreiddio technoleg â dulliau plismona traddodiadol, gan gydnabod bod craidd plismona cymunedol yn parhau i fod yn ddull sy'n canolbwyntio ar bobl drwy ryngweithio uniongyrchol, gwrando gweithredol a dulliau datrys problemau.

Lansiwyd y Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol (2024–2028) yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gan gydnabod manteision cyflogi gweithlu amrywiol sy'n gallu dod â'u profiadau a'u gwerthoedd personol eu hunain i'r heddlu. Nod y strategaeth yw sicrhau bod yr heddlu'n denu unigolion o gymunedau amrywiol i wneud cais am rolau staff a swyddogion.

- Adolygu a monitro'r broses ymgeisio yn barhaus er mwyn nodi rhwystrau mewn prosesau recriwtio.
- Darparu cefnogaeth briodol i unigolion sy'n gymwys ar gyfer gweithredu cadarnhaol.
- Ceisio cyngor gan bartneriaid a rhanddeiliaid i ddenu'r ymgeiswyr mwyaf talentog o bob cymuned, yn enwedig cymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Datblygwyd Strategaeth Pobl, Diwylliant a Moeseg (2025–2029) newydd yng ngwanwyn 2025 gyda mewnbwn gan bob rhanddeiliad. Mae'r strategaeth yn cefnogi creu gweithlu medrus, gwydn, cynhwysol, iach ac ymgysylltiedig sydd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf sy'n weladwy ac yn hygyrch. Y tri phrif flaenoriaeth ar gyfer 2025–2026 yw:

- Datblygu gallu dadansoddi a chyflwyno adroddiadau ar ddata pobl er mwyn llywio a galluogi prosesau gwneud penderfyniadau a datrys problemau sy'n seiliedig ar ddata ar gyfer pob gweithgaredd pobl ar draws yr heddlu.

- Creu Cynllun Cyflawni Llesiant Ataliol sy'n cael ei arwain gan ddata gan weithio mewn partneriaeth â Chymdeithas yr Uwch-arolygwyr, y Ffederasiwn ac Unsain.
- Datblygu a gweithredu Cynllun Gweithlu Strategol byw sy'n cael ei adnewyddu'n flynyddol ac sy'n cynnwys rhagolygon hyd at 2030.

Mae Strategaeth Diogelu Pobl 2025–2029 yn nodi saith egwyddor allweddol er mwyn amddiffyn y bobl mwyaf bregus yn ein cymunedau. Mae'r dull o Baratoi, Atal, Erlid ac Amddiffyn (neu 4P yn Saesneg: Prepare, Prevent, Pursue and Protect) yn cynnwys:

- Blaenoriaethu amddiffyn plant ym mhopeth a wnawn.
- Adnabod a diogelu oedolion sydd mewn perygl o gam-drin, esgeulustod, a niwed corfforol, meddyliol neu ariannol.
- Rhwystro cylchoedd ailadroddus o gam-drin, ymddygiadau a niwed trwy ddulliau datrys problemau.
- Targedu troseddwyr niwed risg uchel neu ymddygiad ailadroddus drwy gyfleoedd cyfiawnder troseddol a sifil.
- Dileu trais yn erbyn menywod a phawb o gam-drin domestig, stelcio a thrais rhywiol.
- Gweithlu cymwys a medrus i ddiwallu a lleihau galw.
- Trawsnewid arferion gwaith drwy ddatblygiadau arloesol, technolegol a deallus.

Mae Strategaeth Atal 2024–2028 yn canolbwyntio ar ymyriadau sy'n arwain at lai o ddioddefwyr, llai o droseddau a llai o alw ar blismona. Cyflawnir hyn drwy fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol a'u hatal drwy ymyrraeth sy'n canolbwyntio ar bartneriaeth ac ymagwedd ddatrys problemau. Mae'r amcanion strategol yn cynnwys:

- Gwella hyder y cyhoedd drwy ymgorffori plismona ataliol drwy newid diwylliant a thrwy ymgysylltu â phob cymuned, gan atal yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw.
- Lleihau niwed a lleihau troseddu drwy gydweithio â phartneriaid i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu a bregusrwydd.
- Gweithlu effeithiol drwy sicrhau bod gan ein pobl y sgiliau a'r model gweithredu cywir ar gyfer atal.
- Llai o alw am wasanaeth yr heddlu trwy ddulliau datrys problemau ar sail tystiolaeth:

Penododd yr heddlu rôl swyddog cynaliadwyedd newydd yn y cyfnod hwn ac ym mis Mawrth 2025, lansiodd yr heddlu Strategaeth Gynaliadwyedd a Datgarboneiddio newydd. Mae'r fframwaith a'r cynllun gweithredu ategol yn cefnogi uchelgeisiau'r heddlu hyd at 2030 a thu hwnt drwy gyflwyno cyfres o ymyriadau a mesurau gwella wedi'u cynllunio. Mae'r fframwaith cynaliadwyedd yn cyflawni tair colofn:

- Cynaliadwyedd economaidd sy'n cynnwys darparu gwerth am arian a chynaliadwyedd ym mhob penderfyniad a phroses. I gynnwys tryloywder wrth adrodd ar gyllidebau a gwariant a llywodraethu da ac adrodd ar berfformiad a defnydd arloesol o dechnoleg.
- Mae Cynaliadwyedd Amgylcheddol yn cynnwys datgarboneiddio'r ystâd a'r asedau a lleihau effaith ein gweithrediadau ar yr amgylchedd naturiol.
- Cynaliadwyedd Cymdeithasol, sy'n cynnwys darparu amgylchedd gwaith diogel ac iach ac yn optimeiddio canlyniadau cymdeithasol ar draws y gadwyn gyflenwi.

Mae Grŵp Cynaliadwyedd yr heddlu yn parhau i adolygu pob effaith ar gynaliadwyedd gydag adroddiadau gan grwpiau rheoli ynni a rheoli cyfleustodau, gan olrhain mentrau a chynlluniau gweithredu defnydd ac arbed ynni, yn barhaus. Caiff tueddiadau defnydd cyfleustodau a gwelliannau eu holrhain ar lefel adeiladau a chyfleustodau.

Mae gweithrediadau ystadau yn cynnal cynllun datgarboneiddio ac yn cynnal astudiaethau dichonoldeb cynlluniau cyfalaf sy'n cynnwys technolegau ffotofoltäig, goleuadau LED a thechnolegau lleihau ynni/datgarboneiddio a gwelliannau i adeiladwaith.

Y Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am waith cynnal a chadw a materion gweithredol o ddydd i ddydd sy'n ymwneud ag ystâd yr heddlu. Mae penderfyniadau strategol sy'n ymwneud ag ystâd yr heddlu yn cael eu harwain gan y Pennaeth Ystadau o dan arweiniad a chyfarwyddyd y strwythur llywodraethu. Mae prosiectau a newidiadau ystadau yn gweithredu o fewn cyfyngiadau'r cyllidebau cyfalaf a refeniw a ddyrannwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl.

Mae buddsoddiad yn diweddaru a sicrhau cydymffurfedd ein dalfeydd wedi digwydd yn ystod y cyfnod hwn a bydd yn parhau yn y flwyddyn i ddod mewn perthynas ag uwchraddio'r ddarpariaeth gwresogi, awyru, aerdymheru, teledu cylch cyfyng, a goleuadau LED. Mae hyn wedi'i gyflawni gyda ffocws cyfartal ar allyriadau carbon a chostau rhedeg yn y dyfodol.

Mae'r heddlu'n canolbwyntio ar gyfleusterau ar gyfer y cyhoedd a chyfleusterau cymorth er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben yn weithredol ac yn effeithlon yn ddaearyddol ar draws ardal yr heddlu. Mae hyn yn cynnwys gwaith paratoadol, ac i gwmpasu cyfleoedd cydweithio â phartneriaid eraill mewn lleoliadau a safleoedd hygyrch gyda'r nod o nodi cyfleusterau newydd sy'n caniatáu ôl troed carbon is ac effeithlonrwydd trwy gostau rhedeg is.

Mae'r heddlu'n parhau i fuddsoddi mewn seilwaith hanfodol gyda gwariant ar uwchraddio dosbarthu trydanol, ac uwchraddio gwydnwch mecanyddol yn cael ei wneud ar draws lleoliadau allweddol ar draws ystâd yr heddlu.

Mae cylch cynllunio strategol a sicrwydd newydd wedi'i ddatblygu sy'n dwyn ynghyd ofynion Datganiad Rheoli'r heddlu, proses asesu strategol rheoli risg o orfodi cyfreithiau, dadansoddi galw, galw a ragwelir, cynllunio'r gweithlu, y strategaeth gyfalaf a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n rhan o ystyriaethau gosod praesept blynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae'r Cylch Cynllunio Strategol a Sicrwydd newydd wedi'i gynllunio i gefnogi buddsoddiadau a phenderfyniadau'r heddlu gyda modelau gweithredu newydd yn ogystal â rhai presennol. Mae'r broses yn dangos lle gellir cyflawni mwy o effeithlonrwydd ac mae wedi'i hategu gan dryloywder ac atebolrwydd.

Cefnogir y cylch cynllunio strategol a sicrwydd gan Gynllun Cyflawni Strategol newydd (2025/2029) sy'n amlinellu sut y bydd yr heddlu'n darparu gwasanaeth plismona effeithiol i'r cymunedau gyda ffocws clir ar flaenoriaethau a'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

Mae'r cynllun yn gosod map trywydd clir sy'n mynd i'r afael â heriau troseddu sy'n esblygu ac yn dod i'r amlwg, gan ddiogelu ymddiriedaeth y cyhoedd, gwella diogelwch cymunedol, a hyrwyddo arloesedd wrth ganolbwyntio ar ddull sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr. Mae'r Cylch Cynllunio Strategol a Sicrwydd yn cefnogi'r cynllun ac mae'n broses barhaus sy'n darparu gwybodaeth hanfodol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar adegau allweddol drwy gydol y flwyddyn.

Mae troseddu a gofynion wedi cynyddu o ran cymhlethdod. Mae pwysau ariannol yn golygu bod yn rhaid i'r heddlu fod mor effeithlon ac effeithiol â phosibl a'r ffocws yw sicrhau bod adnoddau'n cyd-fynd â'r angen mwyaf trwy wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, cydweithio â phartneriaid, croesawu arloesedd, a'r defnydd gorau o dechnoleg.

**4. Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau bwriadedig**

Cefnogir goruchwyliaeth strategol o holl fusnes a gweithrediadau'r heddlu gan strwythur llywodraethu'r heddlu a adolygir yn flynyddol, gyda'r holl fyrddau ac adroddiadau'n cydgyfeirio ym Mwrdd Gweithredol yr heddlu a Bwrdd Perfformiad yr heddlu dan gadeiryddiaeth y Prif Gwnstabl cyn y Bwrdd Perfformiad Strategol a'r Pwyllgor Dethol dan gadeiryddiaeth y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn parhau i ddatblygu perthnasoedd gwaith agos â chymunedau Dyfed Powys ac mae wedi ymrwymo i sicrhau bod gan y cyhoedd lais cryf wrth lunio'r gwasanaeth plismona a'r system cyfiawnder troseddol ehangach.

Mae'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd (2025–2029) yn gosod y cyfeiriad strategol a'r blaenoriaethau ar gyfer y pedair blynedd nesaf er mwyn sicrhau bod plismona'n parhau i fod yn berthnasol, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae blaenoriaethau'r Prif Gwnstabliaid yn llywio Cynllun Cyflawni'r Heddlu (2025–2029).

Mae'r heddlu wedi parhau i gefnogi rhaglen ehangu dan arweiniad Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ar gyfer Ymgyrch Soteria Bluestone sy'n anelu at drawsnewid ymateb yr heddlu i drais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol. Mae themâu Ymgyrch Soteria yn cynnwys ymchwiliadau sy'n canolbwyntio ar unigolion dan amheuaeth, nodi troseddwyr ailadroddus/cyfresol, ymgysylltu â dioddefwyr, dysgu a datblygu, llesiant swyddogion a gwell defnydd o ddata a gwaith fforensig digidol.

Yn ogystal, mae'r heddlu wedi datblygu Ymgyrch Rhagorol, sy'n darparu goruchwyliaeth strategol o nifer o argymhellion a gofynion bregusrwydd mewn un cynllun cyflawni rhaglen i gynnwys:

- Y Strategaeth Fregusrwydd Genedlaethol
- Cynllun Cyflawni ar gyfer Trais yn erbyn Menywod a Merched
- Adolygiad Cam-drin Domestig VKPP (Rhaglen Gwybodaeth ac Ymarfer Bregusrwydd (neu Vulnerability Knowledge and Practice Programme yn Saesneg) – Cam-drin Domestig)
- Cynllun Cyfiawnder ar y Cyd ar Gam-drin Domestig
- Cyfradd Gadael Achosion Cam-drin Domestig

- Uwch-gŵyn stelcio[3]
- Ymchwiliad Dwfn i Stelcio a Harasio
- Adolygiad Diogelu Unedig Sengl[4]
- Arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant:

Drwy gydol 2024/2025, cyflwynwyd rhaglen hyfforddiant ar beidio â chadw'n dawel Strydoedd Saffach 5 a ariannwyd gan y Swyddfa Gartref a'r heddlu, gan ddod â phum elfen allweddol ynghyd mewn un rhaglen waith er mwyn gwella a chefnogi ymrwymiad yr heddlu i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched.

Roedd amcanion allweddol y rhaglen yn canolbwyntio ar newid canfyddiadau, agweddau ac ymddygiadau drwy gynhyrchion a rhaglenni addysg a gyflwynir mewn ysgolion, addysg uwch ac yn yr heddlu, sy'n cynnwys hyfforddiant ar beidio â chadw'n dawel i bobl i wella dealltwriaeth a hyder i atal a/neu ymateb i drais yn erbyn menywod a merched mewn mannau cyhoeddus. Mae disgwyl adroddiad gwerthuso llawn yn 2025 gyda'r rhaglen wedi darparu'r hyfforddiant canlynol mewn addysg uwch:

- 37 o sesiynau yn delio â datgeliadau o aflonyddu rhywiol/trais rhywiol
- 30 sesiwn hyfforddi ar fregusrwydd ac aflonyddu rhywiol/trais rhywiol (gan gynnwys economi'r nos)
- 14 sesiwn diogelwch cyfryngau cymdeithasol
- 4 gweminar ar flacmel rhywiol a fynychwyd gan yr heddlu a phartneriaid
- 23 o weithdai ymwybyddiaeth o aflonyddu rhywiol
- Cyflwynwyd cyfanswm o 85 o gyrsiau gan ragori ar y targed o 73, a chyflwynwyd 23 o sesiynau gweithdai ymwybyddiaeth o aflonyddu rhywiol gan ragori ar y targed o 18.

Yn ogystal, dangosodd yr ymgyrch gyfryngau gefnogol drwy gydol y ddarpariaeth gyrhaeddiad o 150,000 ar draws Dyfed Powys, sy'n cynrychioli nifer y bobl/enghreifftiau o unigolion a oedd wedi edrych/gwrando'n weithredol ar hysbysebion ar sianeli digidol. Dangosodd monitro a metrigau cyfryngau cymdeithasol:

- 1,789,963 o argraffiadau
- 13,818 o gliciau ar ddolenni
- 154,853 o gyraeddiadau

Hefyd, darparodd y rhaglen ar beidio â chadw'n dawel hyfforddiant ymwybyddiaeth a bregusrwydd i dros 600 o fyfyrwyr 14-16 oed mewn ysgolion ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys drwy berfformiadau a gweithdai. Gweithiodd y rhaglen gyda gwasanaethau myfyrwyr, staff ac athrawon yn ogystal â'r myfyrwyr eu hunain. Yn dilyn y sesiynau:

- Roedd 78% o fyfyrwyr yn deall ystyr trais rhywiol yn erbyn menywod a merched yn llwyr o'i gymharu â 41% cyn y digwyddiad

[3]Argymhellion mewn ymateb i'r uwch-gŵyn a gyflwynwyd gan Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh ar ran y Consortiwm Stelcio Cenedlaethol
[4]Adolygiad Ymarfer Oedolion, Adolygiad Ymarfer Plant, Adolygiad Lladdiad Domestig, Adolygiad Lladdiad Arfau Ymosodol.

- Roedd 60% o fyfyrwyr yn teimlo’n hyderus y byddent yn rhoi gwybod am ddigwyddiad o drais rhywiol pe byddent yn dyst o’i gymharu â 45% cyn y digwyddiad.
- Roedd 83% o fyfyrwyr yn teimlo’n gwbl hyderus neu’n hyderus i raddau helaeth y byddent yn gallu ymyrryd yn ddiogel o’i gymharu â 50% cyn y digwyddiad

Cyflwynwyd cyfres o weithdai a sesiynau a hwyluswyd gan raglen Cynghreiriaeth Dynion yn yr heddlu hefyd i gefnogi twf rhwydwaith cynaliadwy o gynghreiriaid dynion (cefnogwyr) yn yr heddlu, ac fe’i cynlluniwyd i fynd i’r afael â rhai o’r rhwystrau mwyaf cyffredin yn y gweithle o ran diwylliant, cymuned a chyfathrebu. Roedd y cyrsiau’n arbenigo mewn hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant, a llesiant ymysg dynion a’u hannog i ailystyried gwrywdod gwrywaidd, ac maent yn sbardun pwerus ar gyfer diwylliant gweithle cynhwysol.

Yn 2024, cafodd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru ei ddiddymu. Mae’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a’r Prif Gwnstabl wedi datblygu ac ariannu rhaglen ysgolion newydd, gan ddeall gwerth a manteision y rhaglen yng nghymunedau Dyfed Powys.

Mae gan y gwasanaeth ysgolion newydd 14 o swyddogion heddlu ymroddedig sy’n cyflwyno cwricwlwm i 328 o ysgolion yn ardal yr heddlu ochr yn ochr ag amgylchedd plismona ysgolion cefnogol. Mae’r strwythur yn creu un pwynt cyswllt ar gyfer pob sefydliad addysgol cynradd ac uwchradd. Mae Rheolwr Gwasanaeth Ysgolion staff yr heddlu yn goruchwylio darpariaeth weithredol tactegol y tîm ac yn cydweithio ag asiantaethau partner a rhanddeiliaid allweddol.

Mae’r rhaglen newydd wedi’i datblygu yn seiliedig ar heriau, anghenion a gofynion plismona lleol gyda’r prif amcanion i atal pobl ifanc rhag mynd i mewn i’r system cyfiawnder troseddol drwy ymyrraeth gynnar, atal ac ymgysylltu; a thrwy ddull cydweithredol gyda phartneriaid sy’n galluogi plant i ffynnu a chyrraedd eu potensial llawn.

Yn dilyn toriadau cyllid Llywodraeth Cymru yn 2024 a arweiniodd at ostyngiad o 44 yn nifer y swyddi SCCH, ariannodd yr heddlu 88 o swyddi SCCH ychwanegol, gan gynnal ffigur o 132 o SCCHau yn y gymuned drwy gydol y cyfnod adrodd hwn.

Cyflawnwyd y gostyngiadau a oedd yn ofynnol yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol drwy gyfraddau ymadael naturiol ac ymddeoliadau. Mae’r heddlu’n parhau i fonitro a chefnogi’r newidiadau’n agos fel rhan o’r Strategaeth Plismona Bro ac Atal Lleol a ddatblygwyd yn 2024.

Drwy gydol cyfnodau brig ac yn ystod cynnydd sydyn mewn galw, mae’r heddlu wedi cynnal ei ymrwymiad i sicrhau ymateb plismona effeithiol i’n cymunedau drwy flaenoriaethu adnoddau digonol, cydbwyso diogelwch a lles swyddogion, ac ar yr un pryd galluogi’r heddlu i gyfathrebu’n effeithiol, darparu gwelededd ac ymgysylltu ag aelodau’r cyhoedd.

Mae goblygiadau cynnydd annisgwyl a disgwyliedig mewn galw yn amrywio o symudiadau cyhoeddus torfol anghyfyngedig, pryderon diogelwch cyhoeddus cysylltiedig, mannau gorlawn, i blismona cyffredinol a chynnydd mewn troseddau, i gyd yn effeithio ar bartneriaid ar draws ardal ddiffiniedig Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys. Amcan strategol yr holl weithrediadau yw cadw cymunedau’n ddiogel, diogelu pobl fregus, amddiffyn rhag niwed difrifol a chysylltu â chymunedau.

Drwy gydol y flwyddyn, mae cynlluniau penodol yn cael eu creu ar gyfer lleoliadau allweddol lle mae bygythiad penodol wedi'i nodi sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae cynlluniau patrôl ar gyfer ardaloedd o bwys, megis traethau a mannau agored, wedi'u creu a byddant yn cael eu gweithredu.

Sefydlodd yr heddlu Ymgyrch Ivydene, a ariannwyd gan gyllid y Swyddfa Gartref ar gyfer ardaloedd sydd â risg uchel o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol a chyllid y Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Mae Ymgyrch Ivydene yn cynnwys patrolau gweledol uchel wedi'u targedu mewn deg ardal broblemus ar draws yr heddlu gan ddefnyddio dull datrys problemau, gan dargedu materion sy'n gyfrifol am ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn lleoliadau penodol.

Drwy gydol y flwyddyn, mae Ymgyrch Ivydene wedi darparu tua 7500 awr o batrolau gweladwy, ac mae 10% ohonynt wedi cynnwys patrolau gydag asiantaethau partner. Mae dros 3600 o holiaduron ymgysylltu wedi'u cwblhau ac mae 70% o shifftiau wedi ymgysylltu â chymunedau sydd heb gyrraedd eto. Mae 81% o shifftiau wedi ymgysylltu â busnesau lleol, sefydliadau'r trydydd sector neu elusennau.

Cynhaliwyd 196 o chwiliadau stopio a chwilio gyda chyfradd o 33% yn cadarnhau amheuon, gan gynnwys tair cyllell yn cael eu cymryd oddi ar y stryd. Gwelwyd lefelau cyffredinol ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardaloedd sydd â risg uchel yn gostwng yn sylweddol gyda'r gostyngiadau/newidiadau canlynol yn y galw i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

| Heddlu | Sir Gaerfyrddin | Ceredigion | Sir Benfro | Powys |
|---|---|---|---|---|
| -6% | -9% | -7% | -20% | 20% |

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cadarnhau y bydd cyllid ardaloedd sydd â risg uchel ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau yn 2025/2026.

Ym mis Chwefror 2025, cyhoeddodd y llywodraeth fesurau plismona newydd i'w cyflwyno yn y senedd drwy Fil Troseddu a [5]Phlismona newydd fel rhan o fenter ehangach i fynd i'r afael â diogelwch cymunedol. Bydd Mesur Troseddu a Phlismona 2025 yn mynd i'r afael â throseddau cyllyll, trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin plant yn rhywiol a therfysgaeth yn ogystal â lladrad i siopau, lladrad ffonau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae galw uniongyrchol ac anuniongyrchol yn effeithio ar blismona drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys galw cynyddol yn yr haf. Yn ogystal, mae nifer o ddigwyddiadau allweddol bob blwyddyn sy'n cynyddu nifer yr ymwelwyr yn ardal yr heddlu yn sylweddol, gan gynnwys:

- Sioe Frenhinol Cymru flynyddol sy'n denu dros 250,000 o ymwelwyr gan feddiannu 165 erw o dir
- Ironman Cymru yn denu 10,000 o ymwelwyr y dydd
- Mae Sir Benfro yn denu pedair miliwn o ymwelwyr y flwyddyn ar gyfartaledd, Ceredigion tair miliwn a Sir Gaerfyrddin 3.1 miliwn
- Mae Gŵyl y Gelli yn digwydd bob blwyddyn gyda chyfartaledd o 70 o artistiaid ac awduron, 60 o ddigwyddiadau ac yn denu dros 100,000 o ymwelwyr dros gyfnod o 11 diwrnod.

[5]Bil Troseddu a Phlismona 2025 - GOV.UK

- Mae World Rally GB yn denu 20,000 o ymwelwyr a mwy flwyddyn ar ôl blwyddyn.
- Yn ogystal, mae nifer o feysydd sioe, digwyddiadau a gwyliau sy'n herio'r rhwydwaith ffyrdd ledled Dyfed Powys yn ogystal â'r gofyniad i blismona digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r heddlu hefyd yn cefnogi anfon cydgymorth i gynnwys Ymgyrch Navette I a II, sef yr enghraifft fwyaf o symud swyddogion trefn gyhoeddus yn ymateb i anhrefn treisgar yn y DU yn ystod haf 2024. Mae enghreifftiau o gydgymorth hefyd wedi cynnwys Cynhadledd Arweinwyr Ewropeaidd, protestiadau cenedlaethol, ac ymosodiadau drôn ar seilwaith milwrol.

Mae'r heddlu wedi cynyddu'r defnydd o dronau yn sylweddol er mwyn cefnogi plismona gweithredol. Mantais hanfodol defnyddio drôn yw diogelwch swyddogion a'r cyhoedd ac i gynorthwyo mewn nifer o weithrediadau gan gynnwys: chwilio ac achub, chwilio am unigolion dan amheuaeth ac eiddo, chwilio lleoliad trosedd, ymateb i drychinebau, traffig ffyrdd a gwrthdrawiadau, digwyddiadau arfau tanio a threfn gyhoeddus.

Cyhoeddodd yr heddlu ddigwyddiad mawr ar draws siroedd Caerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys ym mis Rhagfyr mewn ymateb i darfu sylweddol a achoswyd gan Storm Darrah, gyda'r heddlu'n delio â nifer fawr o alwadau yn ymwneud â difrod storm, gan gynnwys colli pŵer ar draws y gymuned a gwasanaethau brys hanfodol am gyfnod hir.

Mae pwyntiau tyngedfennol o ran galw ac adnoddau yn cael eu nodi ar draws ystod o risgiau er mwyn cefnogi gwneud penderfyniadau gwrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac maent yn destun adolygiad wythnosol mewn cyfarfodydd rheoli dyddiol ar draws ardaloedd plismona lleol.

Mae'r heddlu yn paratoi ar gyfer arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu nesaf Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi 2025-2027 a ddisgwylir ym mis Mai 2026 ar ôl gwneud cynnydd sylweddol mewn perthynas â nifer o feysydd i wella a ddyrannwyd o'r arolygiad blaenorol, gyda'r naw maes i'w gwella wedi'u cymeradwyo o fewn cyfnod o 12 mis.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae'r heddlu hefyd wedi bod yn destun gweithgaredd arolygu thematig arall gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi ac wedi ymwneud yn uniongyrchol ag arolygu. Gwirfoddolodd yr heddlu i fod yn heddlu peilot ar gyfer yr arolygiad thematig ar y cyd gan Arolygiaeth Prawf EF ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi o warediadau ieuenctid tu allan i'r llys ym mis Tachwedd 2024.

Amlygwyd nifer o feysydd cadarnhaol o fewn yr heddlu mewn perthynas â'r dull a'r defnydd o ganlyniadau dargyfeiriol sy'n canolbwyntio ar blant, gyda meysydd i'w gwella wedi'u nodi mewn perthynas â'r broses atgyfeirio a chyflwyno atgyfeiriadau diogelu ym mhob achos.

Roedd yr heddlu hefyd yn rhan o arolygiad ar y cyd o drefniadau diogelu plant ar gyfer ardal awdurdod lleol Sir Benfro ym mis Mawrth 2025. Mae'r adroddiad terfynol i fod i gael ei gyhoeddi ddiwedd 2025, ond roedd yr adborth cychwynnol yn gadarnhaol iawn o ran yr ymateb cychwynnol, nodi ymwybyddiaeth o fregusrwydd a rhannu gwybodaeth yn amserol ac yn effeithiol â phartneriaid, a hefyd y llywodraethu cryf a'r monitro perfformiad sydd ar waith.

O weithgaredd arolygu thematig arall gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi a gynhaliwyd yn genedlaethol, mae nifer o argymhellion ychwanegol hefyd wedi'u dyrannu i bob heddlu o adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod 12 mis hwn.

Mae'r rhain yn cynnwys arolygiad i fetio a gwrth-lygredd rhan 2 (Ebrill 2024) - un argymhelliad; adroddiad cynnydd Ymgyrch Soteria (Awst 2024) - pum argymhelliad; arolygiad ar actifiaeth a didueddrwydd ym maes plismona (Medi 2024) - naw argymhelliad; ymateb plismona i ymddygiad gwrthgymdeithasol (Hydref 2024) - pum argymhelliad; ac arolygiad o ba mor effeithiol y mae'r heddlu'n ymchwilio i droseddu (Mawrth 2025) - wyth argymhelliad.

Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran yr holl argymhellion o'r arolygiadau thematig hyn, a adroddir ac a drafodir yn y cyfarfodydd bwrdd llywodraethu strategol chwarterol priodol. Mae'r heddlu wedi cymeradwyo 15 o argymhellion o'r arolygiadau thematig yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Mae'r Strategaeth Gyfalaf, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Polisi Cronfeydd yn gydrannau allweddol o'r broses hon a rhoddir cyflwyniadau ar ganlyniadau a chynigion cyllidebol i'r Comisiynydd, i Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio, i aelodau archwilio allanol ac i aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu yn y Seminar Cyllid yn flynyddol.

Caiff y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Strategaeth Gyfalaf eu cefnogi yn eu tro gan gynllun arbedion manwl, cynllun gweithlu, cynllun hyfforddi, strategaeth TGCh, Strategaeth Ystadau, a rhaglen adnewyddu cerbydau. Mae hyn yn galluogi cyllidebau manwl (refeniw a chyfalaf) a sefydliadau gweithlu i gael eu neilltuo i feysydd adrannol.

Cefnogir Comanderiaid Gweithredol a Phenaethiaid Adrannau gan Bartneriaid Busnes Cyllid ac Arbenigwyr Adnoddau Dynol sy'n caniatáu iddynt nodi pwysau a bwydo i'r cylch cynllunio a monitro ariannol a thrwy'r cylch cynllunio strategol a sicrwydd newydd ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn.

O safbwynt gweithredol o ddydd i ddydd, cefnogir y broses gan dasgau a briffiau, er mwyn sicrhau bod staff yn cael tasgau priodol ac yn cyfrannu'n llawn mewn ffordd sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau gan gynnwys blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

Gweithredwyd strwythur arweinyddiaeth weithredol newydd ym mis Mawrth 2025, pan gafodd ardaloedd plismona lleol eu dychwelyd yn ôl i unedau rheoli sylfaenol. Y rhesymeg dros y newid oedd cefnogi model gweithredu newydd yr heddlu a diwallu anghenion presennol a dyfodol yr heddlu yn well, gan alluogi comanderiaid unedau rheoli sylfaenol i ddefnyddio'r holl adnoddau yn eu hardal i ddiwallu'r galw lleol.

Mae Cod Rheolaeth Ariannol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (2020) yn ddull sy'n seiliedig ar egwyddorion ar gyfer cefnogi arferion da mewn rheolaeth ariannol a dangos gwydnwch a chynaliadwyedd ariannol. Mae'r Cod Rheolaeth Ariannol yn seiliedig ar saith safon rheolaeth ariannol sy'n cwmpasu arweinyddiaeth, atebolrwydd, tryloywder, safonau, sicrwydd a chynaliadwyedd.

Cynhaliwyd yr hunanasesiad blynyddol hwn o drefniadau rheoli ariannol ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys gan y Prif Swyddog Cyllid a Chyfarwyddwr Cyllid ym mis Mawrth 2025 a oedd yn edrych ar draws 17 agwedd sylfaenol a 68 o gwestiynau. Ystyriodd yr adolygiad y trefniadau sydd ar waith

er mwyn asesu cydymffurfedd ag arferion gorau a nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Cyflwynwyd canlyniad yr hunanasesiad i gyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio ar 26 Mawrth 2025.

Mae'r asesiad diweddaraf wedi tynnu sylw at welliannau sylweddol ar draws yr holl feysydd a nodwyd ar gyfer gweithredu yn dilyn asesiad 2024. Roedd hyn yn cynnwys ymgorffori'r broses gynllunio ariannol tymor canolig fel rhan o'r cylch cynllunio strategol a sicrwydd ehangach, dychwelyd i gydymffurfiaeth ag amserlenni a gwelliannau o ran ansawdd y datganiadau ariannol, gwelliannau gyda chynhyrchu'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ac o ran trefniadau archwilio mewnol. Roedd y trefniadau ar gyfer asesu gwydnwch a risgiau ariannol hefyd wedi gwella.

Nododd yr adroddiad feysydd lle mae angen tystiolaeth o welliannau pellach a bwriedir cyflwyno cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru i'r Pwyllgor Cyllid Strategol a Chynllunio Ariannol Tymor Canolig ym mis Mehefin 2025. Mae'r meysydd sy'n weddill yn ymwneud â dangos tystiolaeth o welliannau cynhyrchiant a gorfodi mabwysiadu methodoleg gwerthuso opsiynau lle'r oedd y camau gwella a weithredwyd yn 2024/2025 angen cyfnod o ymgorffori pellach er mwyn dangos tystiolaeth eu bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

Mae trefniadau llywodraethu yn cefnogi gwneud penderfyniadau cadarn er mwyn cyflawni'r canlyniadau gofynnol ac yn darparu llinell adrodd glir ar gyfer penderfyniadau a chamau gweithredu i'w cymryd. Mae gan uwch-arweinwyr islaw lefel y Prif Swyddog fwy o gyfrifoldeb dros gadeirio a gwneud penderfyniadau, sy'n cefnogi camau gweithredu hyblyg ac ymatebol, canlyniadau gwell ac atebolrwydd dros wneud penderfyniadau.

Mae'r heddlu yn cynnal adolygiad blynyddol o'r strwythur llywodraethu corfforaethol lle rhoddir sylw i amcanion strategol a sefyllfa bresennol yr heddlu yn ogystal â gofynion ac ystyriaethau yn y dyfodol.

- Asesiad o ba mor dda y mae'r llywodraethu'n cefnogi'r heddlu i gyflawni ei rwymedigaethau cydymffurfio a rheoli risg
- Cael gwell dealltwriaeth ynghylch a yw'r llywodraethu'n cefnogi neu'n rhwystro cyflawni'r blaenoriaethau a'r strategaethau
- Nodi meysydd i'w gwella
- Egluro rolau a chyfrifoldebau
- Adolygu'r broses gwneud penderfyniadau tactegol a strategol
- Asesu cadernid a phriodoldeb

Mae'r strwythur llywodraethu a gyflwynwyd yn 2022 yn parhau i weithio'n dda gyda hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer newidiadau neu ofynion busnes newydd gyda mân newidiadau wedi'u gwneud yn 2024/2025. Nodwyd diffyg corfforaetholdeb bach yn fformat a strwythur yr agendâu a thynnwyd sylw at ddileu eitemau sefydlog ar yr agenda mewn nifer fach.

Cwblhawyd yr adolygiad blynyddol o gyfarfodydd strategol a'u cylch gorchwyl ym mis Ionawr 2025 gyda mân newidiadau i'w cynnwys:

- Goruchwyliaeth strategol o drefniadau parhad busnes newydd i'r Bwrdd Gofynion Plismona Strategol.
- Cynnwys y llinyn atal newydd ac adrodd i'r Bwrdd Bregusrwydd ac Atal Strategol.

- Newidiadau i adlewyrchu goruchwyliaeth i elfennau tactegol y cylch cynllunio strategol a sicrwydd i'r Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol.
- Cyflwynwyd Bwrdd Perfformiad Strategol newydd dan oruchwyliaeth y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.
- Mwy o bwyslais ar seiberddiogelwch a risg gwybodaeth ac adroddiadau ychwanegol i gynnwys data, technoleg ac arloesedd i'r Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth.
- Elfennau penodol i dechnoleg sy'n deillio o'r gwaith data, technoleg ac arloesedd wedi'u hychwanegu at y bwrdd Strategol TGCh.
- Adrodd ar ddatgarboneiddio a chynaliadwyedd wedi'u cynnwys yn y Bwrdd Ystadau Strategol.

Mae gofynion llywodraethu ac adrodd yr heddlu yn cyd-fynd â'r cylch cynllunio strategol a sicrwydd newydd, mewn perthynas ag amseriad cynhyrchu'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol a dogfennau allweddol eraill a ffynonellau gwybodaeth er mwyn cefnogi cynllunio ac adrodd ariannol drwy gydol y flwyddyn ac ar adegau allweddol ynddi.

Yn dilyn etholiad Comisiynydd Heddlu a Throseddu ym mis Mai 2024, gofynnodd y Comisiynydd am adolygiad sylfaenol o drefniadau llywodraethu er mwyn sicrhau bod strwythurau'n cefnogi ei gyfrifoldebau statudol yn llawn. Yn dilyn cwblhau'r gweithgaredd hwn, a oedd yn cynnwys ymgynghori â'r Prif Gwnstabl ac aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu, adolygwyd y Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol hefyd.

Mae'r Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol yn cynnwys:

- Datganiad Llywodraethiant Corfforaethol sy'n sicrhau eglurder o ran y ffordd y mae'r ddwy gorfforaeth yn llywodraethu ar y cyd ac ar wahân;
- Cod Llywodraethiant Corfforaethol sy'n nodi sut y bydd yr egwyddorion craidd yn cael eu gweithredu, gan ddisgrifio'r strategaethau, y trefniadau, yr offerynnau a'r rheolaethau er mwyn sicrhau llywodraethu da yn y ddwy gorfforaeth undyn;
- Cynllun Llywodraethiant Corfforaethol sy'n diffinio'r paramedrau y bydd y corfforaethau undyn yn cynnal eu busnes oddi mewn iddynt;
- Polisïau a gweithdrefnau ar wahân ar gyfer pob corfforaeth undyn, gyda phrotocolau lle maent yn gweithredu ar y cyd.

Mae'r holl drefniadau llywodraethu sydd mewn grym yn destun adolygiad blynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben.

Mae'r Fframwaith Comisiynu yn nodi sut mae'r Comisiynydd yn cydweddu'r Gyllideb Gomisiynu â'r themâu allweddol a'r blaenoriaethau strategol yn y Cynllun Heddlu a Throseddu, o dan oruchwyliaeth y Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu.

Mae'r fframwaith yn rhan o gyfres o ganllawiau a dogfennau corfforaethol a ddatblygwyd er mwyn cefnogi prosesau ac arferion cyson ac effeithiol ac mae'n cefnogi gweithredu prosiectau a newid gyda mwy o bwyslais ar enillion effeithlonrwydd a/neu arbedion ariannol.

Mae Grŵp Prosiectau a Chyllido newydd wedi'i sefydlu er mwyn dosbarthu cynigion prosiectau a cheisiadau am gyllid, rhoi cyngor ac arweiniad ar ofynion, a gwella mynediad at gyfleoedd cyllido sydd ar gael ac sydd ar ddod.

Mae Grŵp Asesu Syniadau Digidol newydd wedi'i sefydlu fel rhan o daith awtomeiddio digidol yr heddlu er mwyn gwerthuso ceisiadau ar gyfer defnyddio technoleg newydd sydd â'r nod o wella cynhyrchiant yn rhagweithiol. Y nod hefyd yw adolygu'r dechnoleg fwyaf priodol ar gyfer datrysiad er mwyn sicrhau nad yw data gweithredol yn datblygu y tu allan i system rheoli cofnodion Niche. Y dewisiadau technoleg cyfredol yw ceisiadau newid Niche, prosesau awtomeiddio prosesau robotig, MS Power Apps neu MS PowerBI i'r rhai sydd angen dangosfyrddau. Mae hyn bellach wedi'i hen sefydlu gyda llif parhaus o geisiadau'n cael eu derbyn.

Mae'r rhaglen Plismona Bro a ddatblygwyd gan yr heddlu'n fewnol wedi'i gwella i gynnwys modiwl ymgysylltu ag ysgolion a aeth yn weithredol ym mis Medi 2024.

Dyfarnwyd contract teledu cylch cyfyng newydd o fis Medi 2024 gyda cham cyntaf o waith cynnal a chadw ataliol cynlluniedig sef adolygiad o'r seilwaith presennol a statws yr offer a ddefnyddiwyd yn cael ei gynnal. Mae'r gwaith o ailosod y rhwydwaith diwifr wedi'i gynnwys yn y contract newydd, gyda'r gwaith yn cael ei adolygu a'i wneud dros 12 mis (hyd at fis Medi 2025).

Profwyd datrysiad peilot ar gyfer golygu dogfennaeth a'i gymeradwyo i fuddsoddi ynddo yn ystod y cyfnod hwn, a chaffael datrysiad cwmwl M365 wrth gefn.

Mae Power Apps a Centre of Excellence MS bellach wedi'u sefydlu ac yn darparu llif parhaus o apiau i gynnwys er enghraifft: Gofyn am Westai, Gofyn am Dîm, Proses Ffurflen Cais am Swydd Wag, Cofnod Namau Uned Fforensig Ddigidol, Llif Atgyweirio Uned Fforensig Ddigidol, Cais Gwasanaeth Gwasanaethau Rhwydwaith Fforensig Uned Fforensig Ddigidol, Llif Cellbrite Uned Fforensig Ddigidol, Ffurflen Atgyfeirio Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg, Ffurflen Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol i Excel, Monitro Trafodion Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, ceisiadau cyfathrebu corfforaethol, archwiliad digidol data cudd.

Mae gwaith awtomeiddio prosesau robotig wedi cynnwys proses awtomeiddio prosesau robotig uned asesu risg eilaidd hysbysiad er diogelu'r cyhoedd sy'n gweithredu ac yn perfformio'n llwyddiannus ar gyfradd o 96%, mae prosesau awtomeiddio prosesau robotig trwyddedu arfau tanio a fetio yn cael eu datblygu a disgwylir iddynt fynd ar waith yn chwarter 4 (2025). Mae'r heddlu yn rhan o grŵp o heddluoedd cenedlaethol y De sy'n braenaru awtomeiddio prosesau robotig ac mae'n ystyried gweithredu prosesau sydd ar gael ar y catalog cenedlaethol. Mae'r galw ar draws TGCh yn parhau i fod yn fwy na'r capasiti adnoddau gyda blaenoriaethau'n cael eu hadolygu'n gyson.

Ym mis Tachwedd 2024, sefydlodd yr heddlu Grŵp Data, Technoleg ac Arloesedd newydd dan gyfarwyddyd y Dirprwy Brif Gwnstabl sy'n cydnabod graddfa a chyfradd trawsnewid digidol o fewn y gwasanaeth heddlu; a'r angen i ddelio â'r seilwaith technolegol a'r amgylcheddau digidol sy'n gynyddol gymhleth a'u cynnal.

Mae Strategaeth Plismona Digidol Genedlaethol 2020-2030 yn nodi uchelgeisiau digidol y gwasanaeth heddlu drwy set o flaenoriaethau digidol a blociau adeiladu technoleg sydd eu

hangen i'w cyflawni. Yn ogystal, mae'r grŵp yn cynnal asesiadau o sefyllfa'r heddlu a thechnoleg alluogi mewn perthynas â Safonau Bwrdd Data Cenedlaethol yr Heddlu Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, hunanasesiad Gwasanaeth Digidol yr Heddlu, gofynion y Set Ddata Genedlaethol mewn perthynas â Chydymffurfedd ag Archwilio Diogelu Data a Safonau Ansawdd Data a Strategaeth Gwyddoniaeth a Thechnoleg yr Heddlu Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r heddlu yn cydweithio â phartneriaid plismona yn rhanbarth Cymru (Gwent, Gogledd Cymru, De Cymru) ac wedi ymrwymo i gydweithio i amddiffyn cymunedau Cymru rhag risg a niwed. Cefnogir cydweithio yng Nghymru gan strwythur llywodraethu ac atebolrwydd sy'n diffinio rolau a chyfrifoldebau Grŵp Plismona yng Nghymru a Grŵp Prif Swyddogion Cymru. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn dan arweinyddiaeth Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, sefydlwyd bwrdd cydweithio''r comisiynwyr heddlu a throseddu.

Mae heddluoedd Cymru yn defnyddio cydweithio er mwyn sicrhau mwy o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau cyhoeddus ac maent wedi ymrwymo i weithio tuag at fwy o ryngweithredu a safoni ar draws pob maes plismona. Mae nifer o gydweithrediadau hirdymor yng Nghymru gan gynnwys Heddlu Gwrthderfysgaeth Cymru, Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol Tarian a Titan a Chyd-uned Arfau Tanio. Mae cydweithrediadau sefydledig eraill yn cynnwys hafan ar-lein sengl yr heddlu a llwyfan recriwtio Oleeo, gan ddefnyddio technoleg i ddatblygu safonau cyffredin.

Cefnogir yr agenda cynaliadwyedd gan y prosiect Charge er mwyn cyflwyno seilwaith gwefru cerbydau trydan cyson ar gyfer cerbydau heddlu ar draws ystâd yr heddlu.

Mae rhaglen Cynghrair Fforensig y tair heddlu sefydledig, sy'n cynnwys achredu fforensig, Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol acryn oedi yn ystod y cyfnod adrodd hwn o ran adeiladu ac achredu.

## 5. Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth ac unigolion o fewn yr endid

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi diffinio strwythurau a rolau i alluogi arweinyddiaeth effeithiol yn unol â Gorchymyn Protocol Plismona 2023 (Diwygiedig), gyda chytundebau lleol ar rolau a chyfrifoldebau wedi'u nodi yn y Cyd-fframwaith Llywodraethu Corfforaethol.

Mae Strategaeth Datblygu Arweinyddiaeth yr Heddlu yn cefnogi datblygiad arweinwyr presennol a darpar arweinwyr i'w galluogi i gyrraedd eu potensial llawn. Mae'r heddlu yn grymuso arweinwyr i adeiladu timau effeithiol sy'n cyflawni'n gyson, gan ddeall bod arweinwyr effeithiol yn effeithio'n uniongyrchol ar gymhelliant a chadw staff. Cyflwynwyd rôl Pennaeth Talent newydd i'r heddlu er mwyn sicrhau bod gan yr heddlu'r adnoddau gorau posibl ar gyfer y dyfodol agos a'r dyfodol hirdymor.

Mae'r heddlu wedi mabwysiadu Rhaglen Arweinyddiaeth y Coleg Plismona, lefelau 1-5. Caiff lefelau 1 i 3, sy'n cynnwys hyd at reolwyr canol, eu darparu o fewn yr heddlu. Cyflwynir lefel 4 (uwch-arweinwyr) a Lefel 5 (arweinwyr gweithredol) gan y Coleg Plismona.

Mae'r heddlu hefyd wedi cyflwyno hyfforddiant rheoli newid achrededig ar gyfer uwch-arweinwyr sy'n cydnabod tirwedd newidiol plismona a fydd yn rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r strategaethau sydd eu hangen ar arweinwyr presennol a rhai'r dyfodol gyda ffocws ar ddiwylliant, cyfathrebu a llywio newid cymhleth. Mae'r heddlu hefyd yn cefnogi datblygiad proffesiynol mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys cymryd rhan mewn prosiectau cenedlaethol, secondiadau ac ymlyniadau i unedau cenedlaethol a rhanbarthol.

Mae Strategaeth Llesiant yr heddlu wedi'i halinio â saith thema llesiant o fewn Fframwaith Llesiant Golau Glas: arweinyddiaeth, rheoli absenoldeb, creu'r amgylchedd, iechyd meddwl, amddiffyn y gweithlu, gwydnwch personol, ac iechyd galwedigaethol.

Mae'r heddlu'n ymwneud yn llawn â gwaith Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu ac wedi cofrestru i fod yn rhan o Gymru Wrth-hiliol.[6] Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiwylliannau sy'n ymwneud â hil wedi bod yn mynd rhagddo ers mis Ionawr 2025 ac mae'n cynnwys sesiynau wyneb yn wyneb tair awr i bob swyddog a staff gyda hyfforddwyr allanol (No Boundaries).

Mae'r Uned Gwella Gwasanaethau sy'n gyfrifol am arolygiadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, y Gofrestrfa Troseddau, Perfformiad a Dadansoddeg a Llywodraethiant a Newid wedi arwain y gwaith ar y cylch cynllunio strategol a sicrwydd newydd. Penodi Rheolwr Cynllunio a Sicrwydd newydd sy'n gyfrifol am reoli, cysylltu a chydlynu adrodd o ddydd i ddydd drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r heddlu'n parhau i weithio gydag UNSAIN, Ffederasiwn yr Heddlu a Chymdeithas yr Uwch-arolygwyr ar y cynllun naw pwynt er mwyn sicrhau dull cyson o ymdrin ag ymosodiadau ar staff a swyddogion. Mae'r heddlu'n hyrwyddo Oscar Kilo, Gwasanaeth Llesiant Cenedlaethol yr Heddlu, ac yn gweithio'n agos gyda'r Coleg Plismona, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a'r Swyddfa Gartref i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

**6. Rheoli risgiau a pherfformiad trwy drefniadau rheoli mewnol cadarn a rheolaeth gref dros arian cyhoeddus,**

Mae yna ddiwylliant rheoli risg wedi'i ymwreiddio ar draws y ddau sefydliad ac ar bob lefel, gyda swyddogion a staff yn rheoli risg yn effeithiol fel rhan o'u gwaith o ddydd i ddydd.

Ar lefel adrannol a lleol, lle mae risgiau'n ymwneud â gweithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd, cânt eu rheoli trwy gofrestrau risg adrannol oni bai bod angen uwchgyfeirio risg i'r lefel strategol lle caiff ei hasesu a'i nodi yng Nghofrestr Gorfforaethol yr heddlu.

Yn 2024, ychwanegwyd cofrestrau risg adrannau at lyfrau gwaith cynllun cyflawni newydd adrannau sy'n cael eu rheoli gan y broses cylch cynllunio strategol a sicrwydd, gan sicrhau bod gan Swyddog Risg yr heddlu fynediad canolog i bob cofrestr risg adrannol. Fel rhan o'r cylch, caiff pob risg adrannol ei hadolygu'n chwarterol a chyflwynir adroddiad arni ar bwyntiau allweddol yng nghalendr y cylch.

[6] https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol-diweddariad-2024-html

Mae trefniadau sefydledig yn parhau ar waith rhwng yr heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu sy'n cyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod ar y cyd unrhyw risgiau a nodwyd a allai fod yn berthnasol i gorfforaeth undyn y llall. Os gwrthodir cais i gofnodi risg ar y ddwy gofrestr gorfforaethol gan y naill sefydliad neu'r llall, caiff y maes risg ei uwchgyfeirio i'r Bwrdd Plismona i'w drafod a phenderfynu arno.

Mae'r broses lywodraethu yn galluogi risgiau i gael eu neilltuo i'r person(au) neu'r adran(nau) priodol ar gyfer lliniaru, rheoli a gweithredu. Mae trefniadau sicrwydd corfforaethol ar gyfer risg yn ymgorffori'r tair llinell amddiffyn.

Yr amddiffyniad cyntaf (swyddogaethau sy'n berchen ar risgiau ac yn eu rheoli)
Caiff ei ffurfio gan reolwyr a staff sy'n gyfrifol am nodi a rheoli risg fel rhan o'u hatebolrwydd i gyflawni amcanion. Gyda'i gilydd, dylent feddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r awdurdod angenrheidiol i weithredu'r polisïau a'r gweithdrefnau rheoli risg perthnasol. Mae hyn yn gofyn am ddealltwriaeth o'r gofynion swyddogaethol, amcanion yr adran, a'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo. Mae'r broses hon wedi'i chryfhau eleni drwy'r broses cylch cynllunio strategol a sicrwydd.

Yr ail amddiffyniad (swyddogaethau sy'n goruchwylio neu sy'n arbenigo mewn cydymffurfio neu reoli risg)
Mae'n darparu'r polisïau, y fframweithiau, yr offer, y technegau a'r cymorth i alluogi i risg a chydymffurfedd gael eu rheoli yn yr amddiffyniad cyntaf. Mae hefyd yn monitro er mwyn barnu pa mor effeithiol yw'r gwaith hwnnw, ac yn helpu i sicrhau cysondeb o ran diffiniadau a mesuriad risg. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth reoli a threfniadau rheoli perfformiad.

Y trydydd amddiffyniad (swyddogaethau sy'n darparu sicrwydd annibynnol)
Yn cael ei ddarparu gan weithgaredd archwilio mewnol, Archwilio Cymru, ac arolygu annibynnol. Gan eistedd y tu allan i brosesau rheoli risg y ddwy linell amddiffyn gyntaf, ei phrif rôl yw sicrhau bod y ddwy linell amddiffyn gyntaf yn gweithredu'n effeithiol a chynghori ar sut y gellir eu gwella, rhoi tasgau iddynt, ac adrodd iddynt. Mae'n darparu gwerthusiad, trwy ddull sy'n seiliedig ar risg, ar effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol i gorff llywodraethu ac uwch reolwyr y sefydliad. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd i reoleiddwyr sector ac archwilwyr allanol bod rheolaethau a phrosesau priodol ar waith ac yn gweithredu'n effeithiol.

Diffinnir risgiau gwybodaeth fel bygythiadau i gyfrinachedd: sicrhau mai dim ond unigolion awdurdodedig all gael mynediad at wybodaeth neu gael gwybodaeth; uniondeb: sicrhau bod yr wybodaeth yn ddilys, yn gywir ac yn gyflawn; ac argaeledd: sicrhau y gall unigolion awdurdodedig gael mynediad ati pan fydd ei hangen arnynt ar yr adeg cywir ac yn y ffordd cywir.

Mae risgiau rheoli gwybodaeth yn cael eu hadrodd a'u rheoli trwy'r Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth. O bryd i'w gilydd bydd risgiau'n cael eu huwchgyfeirio i'w hystyried ar y gofrestr Risg Gorfforaethol gan gadeirydd y Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth.

Ar gyfer cyfnod 2024/2025, nid oedd angen unrhyw newidiadau ar gyfer yr adolygiad blynyddol o Ddatganiad Archwaeth Risg yr heddlu, a gymeradwywyd gan y Cyd-fwrdd Llywodraethiant Corfforaethol.

Roedd rheoli risg yn destun archwiliad mewnol ym mis Medi 2024, gyda chanlyniad yr archwiliad yn rhoi sicrwydd rhesymol gyda mân newidiadau wedi'u hargymell sydd wedi'u gweithredu.

Roedd risgiau a oedd yn parhau i fod heb eu datrys/wedi'u cofrestru ar ddiwedd cyfnod adrodd 2024/2025 yn cynnwys:

- Fformiwla Ariannu'r heddlu oherwydd gostyngiadau mewn cyllid grant cenedlaethol
- Diffygion incwm GanBwyll a phroblemau gyda chostau gweithredu yn arwain at ansefydlogrwydd ariannol
- Rhaglen gydweithio Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol rhanbarthol oherwydd oedi yn y gwaith adeiladu, gan effeithio'n andwyol ar y gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr treisio ac ymosodiad rhywiol difrifol
- Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol gweithredol sy'n ymwneud yn benodol â heriau wrth gyflawni achrediad
- Gofynion fetio o fewn y broses ymgeisio a newidiadau cenedlaethol
- Cofnodi troseddau a chymhwyso canlyniadau o ganlyniad i newidiadau yn strwythurau sefydliadau, modelau gweithredu, a newidiadau cenedlaethol
- Datrysiad rheoli cysylltiadau (CMS) oherwydd toriadau wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio

Roedd risgiau a ryddhawyd neu risgiau sy'n cael eu hadolygu yn y cyfnod hwn yn cynnwys.

- Darpariaeth gofal iechyd yn y ddalfa oherwydd methiant y cyflenwr i fodloni darpariaeth nyrsys dalfa sy'n cefnogi lles unigolion a gedwir yn y ddalfa
- Datrysiad rheoli cysylltiadau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau Canolfan Rheoli'r Heddlu, methiant posibl oherwydd seilwaith sy'n heneiddio
- Gwasanaethau Dioddefwyr Goleudy oherwydd newidiadau mewn gofynion contract a chaffael
- Gofynion uwchraddio teledu cylch cyfyng oherwydd methiannau system a storio
- Galw cynyddol oherwydd oedi archwilio allanol
- Hyfforddiant a chydymffurfedd orfodol iechyd a diogelwch oherwydd tynnu contract hyfforddi yn ôl yn genedlaethol a materion cydymffurfedd dilynol oherwydd adnoddau annigonol
- Tynnu cyllid yn ôl gan Lywodraeth Cymru ar gyfer swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu

Cafodd y risg sy'n gysylltiedig â darpariaeth gofal iechyd ei rhyddhau'n ffurfiol ym mis Chwefror 2025 gan fod tîm nyrsio gofal iechyd y cyflenwyr wedi cyrraedd sefyllfa gryfach a mwy sefydlog gyda gwelliannau mis ar ôl mis wedi'u cadarnhau. Mae'r risg yn parhau i gael ei monitro ar gofrestr risg yr adran gadwraeth am gyfnod o chwe mis.

Caewyd y datrysiad rheoli cysylltiadau yn ffurfiol yn dilyn gweithrediad llwyddiannus y system newydd ym mis Tachwedd 2024. Fodd bynnag, codwyd risg newydd sy'n parhau oherwydd y nifer

uchel o doriadau wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio sy'n effeithio ar wasanaethau yn y cyfnod hwn.

Cafodd risg Goleudy ei rhyddhau ym mis Tachwedd yn dilyn adolygiad, gan dynnu sylw at y cynnydd sylweddol a wnaed a'r mesurau lliniaru effeithiol a roddwyd ar waith. Ym mis Hydref 2024, newidiodd y gwasanaeth Goleudy a reolwyd gynt i Wasanaeth Dioddefwyr Dyfed Powys o dan Cymorth i Ddioddefwyr fel y darparwr gwasanaeth newydd. Cymorth i Ddioddefwyr yw'r elusen annibynnol flaenllaw i ddioddefwyr yng Nghymru a Lloegr ac mae ganddyn nhw dros 50 mlynedd o brofiad o ddarparu cymorth cyfrinachol i unrhyw un yr effeithir arnynt gan drosedd a digwyddiadau trawmatig.

Cafodd y risg teledu cylch cyfyng ei rhyddhau ym mis Mai 2024 yn dilyn uwchraddio llwyddiannus systemau teledu cylch cyfyng.

Cafodd y risg sy'n gysylltiedig â galw cynyddol gan archwiliadau allanol ac oedi posibl ei rhyddhau ym mis Gorffennaf 2024. Mae archwiliad allanol wedi'i drefnu ar ôl cau'r cyfrifon ddiwedd mis Mehefin bob blwyddyn. Mae'r broses cynllunio strategol a sicrwydd newydd yn sicrhau bod ffynonellau gwybodaeth allweddol sy'n llywio'r cyfrifon ar adegau allweddol yn y flwyddyn yn cael eu halinio i gefnogi'r broses.

Rhyddhawyd y risg hyfforddiant a chydymffurfedd iechyd a diogelwch ym mis Gorffennaf 2024 yn dilyn dod o hyd i gyrsiau hyfforddi gorfodol yn llwyddiannus a chadarnhad o gyllid y cytunwyd arno i gefnogi'r ddarpariaeth.

Cafodd y risg yn ymwneud â thynnu cyllid Llywodraeth Cymru yn ôl ar gyfer swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu ei rhyddhau ac argymhellwyd ei monitro'n barhaus.

Adroddir ar bob risg i'r heddlu i Fwrdd Gweithredol yr heddlu a'r Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol gyda'r Cyd-bwyllgor Archwilio Annibynnol yn craffu ar bob risg. Adroddir ar bob risg Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i Dîm Gweithredol y swyddfa gyda chraffu ar risgiau drwy'r Cyd-bwyllgor Archwilio Annibynnol.

Mae gan bob bwrdd strategol eitemau sefydlog ar yr agenda, gan gynnwys risg, sganio'r gorwel, polisi, dysgu'r gwersi ac arolygu.

Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, mae'r Comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif yn gyhoeddus am berfformiad yr heddlu yn y Bwrdd Perfformiad Strategol chwarterol, lle mae'n herio ac yn annog trafodaeth adeiladol ar berfformiad gweithredol.

Mae Bwrdd Perfformiad yr heddlu yn adrodd ar berfformiad tactegol a strategol gan alluogi uwch-arweinwyr i gydweithio i wella'n barhaus, a datrys problemau a nodwyd ar y cyd trwy lens model gweithredu. Mae Bwrdd Gweithredol yr heddlu yn galluogi'r heddlu i adolygu'n fanwl y bobl, y prosesau, y technolegau a chydrannau a'r rhyngddibyniaethau hanfodol eraill er mwyn llywio penderfyniadau strategol.

Mae'r heddlu'n cynrychioli rhanbarth Cymru ar y gweithgor cenedlaethol ar gyfer parhad busnes ac mae wedi adolygu ac ailddatblygu'r holl dempledi, canllawiau a datblygu fideos dysgu byr ar

gyfer yr holl staff. Mae profion ac ymarferion newydd wedi'u datblygu i'w cyflwyno yn 2025 sy'n cynnwys mwy o bwyslais ar fethiannau technoleg a diogelwch gwybodaeth.

**7. Rhoi arferion da ar waith mewn perthynas ag adrodd ac archwilio tryloywder er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol**

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau yn atebol iddynt drwy'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn y ddau sefydliad. Mae'r ddwy wefan yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn unol â deddfwriaeth. Yn ogystal, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cael ei ddwyn i gyfrif bob chwarter gan y Panel Heddlu a Throseddu mewn cyfarfod cyhoeddus ynghylch penderfyniadau a wneir yn ystod y chwarter hwnnw.

Mae gweithgaredd arolygu ac archwilio gan gyrff craffu allanol gan gynnwys Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn parhau i sbarduno gwelliant busnes. Caiff argymhellion eu hystyried yn ofalus gan reolwyr a'u rhoi ar waith lle bo'n briodol, a goruchwylir yr holl gamau gweithredu gan grwpiau llywodraethu perthnasol. Caiff adroddiadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi eu monitro trwy gynnal cyfarfodydd ag arweinwyr busnes. Mae hyn wedi arwain at Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn cyflawni nifer sylweddol o feysydd i'w gwella ac argymhellion.

Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn cydnabod bod heddluoedd Cymru yn gweithredu mewn cyd-destun gwahanol i'r rhai yn Lloegr lle mae angen i Gymru gydymffurfio â gofynion rheoleiddio Cymru a Lloegr.

Arolygwyd yr Heddlu ddiwethaf o dan raglen arolygu effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF yn 2023. Ar y cyfan, roedd arolygydd EF yn fodlon ar y rhan fwyaf o agweddau perfformiad yr heddlu, gan gydnabod hefyd fod system rheoli cofnodion troseddau newydd Niche wedi cael ei chyflwyno yn ystod y cyfnod arolygu, system sydd wedi effeithio ar amseroldeb rhai gweithgareddau wrth i swyddogion a staff addasu i ffyrdd newydd o weithio. Nododd yr arolygiaeth hefyd y safonau trawiadol wrth ymchwilio i droseddau'n effeithiol a bod yr heddlu'n ymateb yn brydlon i alwadau am wasanaeth ac yn blaenoriaethu'n effeithiol.

Fodd bynnag, amlygwyd pryderon a dyrannwyd meysydd i'w gwella ynghylch cyfraddau rhoi'r gorau i alwadau nad ydynt yn rhai brys, yn ogystal â gwelliant sydd ei angen wrth ddefnyddio THRIVE (bygythiad, risg, niwed, ymchwiliad, bregusrwydd ac ymgysylltu) i flaenoriaethu ymateb i alwadau. Mae'r heddlu'n parhau i gynnal cyfarfodydd rheoli dyddiol newydd sy'n canolbwyntio ar nifer y galwadau a pherchnogaeth digwyddiadau mewn graddau ymateb is sydd wedi lleihau nifer y digwyddiadau mewn ciwiau heb eu monitro.

Yn ogystal, mae prosesau newydd o gofnodi troseddau a adroddwyd yn gynharach wedi lleihau nifer y digwyddiadau sy'n aros am ymateb. Drwy gyllid ychwanegol gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu, mae'r heddlu wedi cyflwyno system ffôn a radio gyswllt newydd, wedi cynyddu adnoddau ac wedi datblygu model gweithredu newydd i gynnwys hollgymhwysedd gyda'r Ganolfan Rheoli'r Heddlu.

Mae'r heddlu wedi gwneud cynnydd cadarnhaol yn y ddau faes hyn ar gyfer gwella ac maen nhw wedi cael eu cymeradwyo fel rhai sydd wedi'u cyflawni tra'n disgwyl am wirio pellach gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi.

Mae'r heddlu'n mynd ar ôl troseddwyr ac yn rheoli unigolion dan amheuaeth sydd heb eu prosesu, a thrafodir hyn mewn cyfarfodydd rheoli dyddiol. Mae'r heddlu'n parhau i wella'r ffordd y rheolir troseddwyr rhyw cofrestredig yn unol ag arfer proffesiynol awdurdodedig.

Cafodd y rheolaeth effeithiol o angen gweithredol sy'n cefnogi lles ei swyddogion a'i staff ei graddio fel un sydd angen gwelliant gan yr arolygiaeth. Roedd y pryderon yn cynnwys swyddogion a staff mewn rolau risg uchel a'r rhai sy'n delio â digwyddiadau trawmatig, gyda'r argymhelliad bod angen i'r heddlu wella ei ddealltwriaeth o anghenion llesiant ei swyddogion a'i staff.

Mae'r heddlu wedi cychwyn rhaglen sylweddol o newid drwy'r adolygiad parhaus o'r heddlu a'r model gweithredu, er mwyn cryfhau timau ymateb mewn lifrau yr heddlu wrth wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd sefydliadol.

Mae hyn yn gwella darpariaeth gwasanaethau i'r cyhoedd a dioddefwyr tra'n gwella lles, llesiant a chyfraddau cadw swyddogion heddlu a staff ar yr un pryd. Mae'r heddlu hefyd wedi buddsoddi'n sylweddol mewn adnoddau iechyd a llesiant galwedigaethol, gyda ffocws ar ddarparu ystod ehangach o fesurau llesiant, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer rolau risg uchel, a chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i'r holl staff a swyddogion ar draws y sefydliad.

Canfu'r arolygiaeth fod cynlluniau ariannol yr heddlu, gan gynnwys y rhaglen fuddsoddi, yn fforddiadwy a byddant yn helpu'r heddlu i fodloni gofynion y dyfodol gan gyflawni Rhagoriaeth Ariannol mewn Plismona.[7]

Mae'r heddlu'n cynnal dull effeithiol o ddatrys problemau, gan weithio gydag asiantaethau sector cyhoeddus eraill sy'n canolbwyntio ar ymddygiad gwrthgymdeithasol ac amddiffyn pobl fregus, gyda threfniadau effeithiol ar waith i amddiffyn pobl fregus. Mae'r heddlu'n gweithio i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella er mwyn cynyddu gwelededd a hygyrchedd swyddogion plismona bro a gwella'r ffordd y mae'n cyfathrebu â phobl leol, ar ôl ymrwymo i weithredu ap ymgysylltu cymunedol newydd er mwyn gwella cyswllt a chysylltiad â'r cymunedau.

Mae'r heddlu hefyd wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn perthynas â meysydd eraill i'w gwella a amlygwyd yn arolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi yn 2023, gyda gwell craffu ac adolygiad eilaidd o bob digwyddiad cam-drin domestig. Cyflwyno hyfforddiant newydd i swyddogion a staff mewn rolau arbenigol ym maes bregusrwydd a gwella llywodraethu a monitro perfformiad er mwyn amddiffyn pobl fregus yn effeithiol. Mae pob un o'r meysydd i'w gwella sy'n ymwneud ag amddiffyn pobl fregus wedi'u cymeradwyo fel rhai sydd wedi'u bodloni tra'n disgwyl am gadarnhad Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi.

[7] https://www.cipfa.org/services/achieving-finance-excellence-in-policing

Mae gan yr heddlu ddealltwriaeth dda o'r galw ym mhob maes, gan sicrhau bod ganddo'r capasiti a'r gallu i reoli'r galw presennol a'r galw yn y dyfodol yn y modd mwyaf effeithlon.

Mae'r Comisiynydd yn darparu gwelededd a sicrwydd allanol drwy'r Panel Sicrhau Ansawdd a sefydlwyd i graffu ar ansawdd cyswllt yr heddlu â'r cyhoedd. Mae'r panel yn fforwm tryloyw ac annibynnol ar ran cymunedau Dyfed Powys. Mae'r gwaith craffu allanol hwn wedi'i wella i fynd i'r afael â maes arall i'w wella a amlygwyd mewn perthynas â chraffu annibynnol ar ddefnydd grym swyddogion.

Mae'r panel Craffu ar Ddatrysiadau y tu allan i'r Llys yn darparu goruchwyliaeth annibynnol o sut mae datrysiadau amgen fel rhybuddion, a datrysiadau cymunedol yn cael eu defnyddio ar draws ardal Dyfed Powys. Dan gadeiryddiaeth Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, mae'r panel yn dwyn ynghyd bartneriaid o blismona, llysoedd, y gwasanaeth prawf, cyfiawnder ieuenctid a Gwasanaeth Erlyn y Goron i adolygu achosion, cynnig adborth a hyrwyddo arferion gorau. Er na all newid canlyniadau, mae gwaith y panel yn helpu i gryfhau atebolrwydd a dysgu.

Mae Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa yn darparu haen ychwanegol o atebolrwydd o ran sut mae unigolion a gedwir yn y ddalfa yn cael eu trin a sut mae prosesau'r ddalfa yn cael eu cymhwyso. Mae gwirfoddolwyr yn adolygu cofnodion cadw dienw a fideos dethol a gamerau corff i asesu Defnyddio Grym, ystyriaethau diogelu a chydymffurfedd â pholisi a gweithdrefn.

Mae'r panel yn ategu gwaith yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa drwy ganolbwyntio ar batrymau ehangach, tryloywder a chyfleoedd dysgu. Mae'n sicrhau bod hawliau a lles unigolion a gedwir yn y ddalfa yn cael eu monitro'n barhaus a bod unrhyw faterion a nodwyd yn cael eu hadrodd yn ôl i'r gwasanaeth ar gyfer gwelliannau.

Mae gwelliannau yn y prosesau archwilio mewnol wedi'u hymgorffori i gynnwys y canlynol:

- Sesiynau briffio ôl-archwiliad i gryfhau'r broses
- Gwella cyfathrebu er mwyn gwella dealltwriaeth o'r broses archwilio mewnol
- Rhanddeiliaid allweddol i'w cynnwys mewn cyfarfodydd cwmpas archwilio mewnol cychwynnol
- Adrodd yn rheolaidd i'r Grŵp Llywodraethiant Archwilio ar hapsampl o brosesau archwilio mewnol
- Adrodd ar archwilio drwy lywodraethiant yr heddlu ar ddangosyddion perfformiad allweddol ac amseroldeb archwilio mewnol drwy gydol y broses

Mae diweddariadau ac argymhellion archwilio mewnol wedi'u cynnwys mewn adroddiadau gan Dîm Arolygu'r Heddlu fel eitem sefydlog ar agenda pob bwrdd strategol.

Mae'r Grŵp Llywodraethiant Archwilio ar y Cyd yn cyfarfod bob chwarter er mwyn adolygu adroddiadau archwilio mewnol a chynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a chytuno ar weithgareddau a chynlluniau archwilio, ac mae'n dod ag atebolrwydd i arweinwyr busnes am symud camau gweithredu ymlaen, gan sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud, risgiau'n cael eu nodi, eu rheoli, a'u hystyried o ran rhaglenni archwilio mewnol pellach. Gofynnir am ymgysylltiad y Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol a'r Cyd-bwyllgor Archwilio wrth gwblhau'r rhaglen.

Mae'r swyddogaeth archwilio mewnol wedi'i chontractio i asiantaeth allanol, gan ddiogelu annibyniaeth weithredol. Dechreuodd contract newydd gyda TIAA ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol ar 2 Medi 2024.

Roedd y rhaglen ar gyfer y flwyddyn 2024/2025 yn cynnwys 24 o archwiliadau. Ar hyn o bryd mae pob heddlu yng Nghymru yn cymryd rhan mewn rhaglen archwilio gydweithredol sy'n darparu budd economaidd a chyfle ar gyfer dysgu ar y cyd, gan gynnwys nodi arferion gorau. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd chwech o'r 24 archwiliad ar y cyd. Cafodd dau ohonynt eu canslo yn ystod y flwyddyn oherwydd bod penderfyniadau cydweithredol ynghylch amseru archwiliadau yn rhy gynnar yn y broses a bod angen amser i ymsefydlu.

Arweiniodd 14 archwiliad at sicrwydd sylweddol, chwech sicrwydd rhesymol, dau at archwiliad dilynol a dau wedi'u canslo, a defnyddiwyd y dyddiau heb eu dyrannu ar gyfer un archwiliad a ddechreuodd ym mis Mawrth 2025.

Mae angen craffu ychwanegol ar feysydd sy'n denu sicrwydd cyfyngedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid gwasanaeth fynychu cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Archwilio er mwyn rhoi mwy o gyd-destun ac ymateb i gwestiynau. Caiff archwiliadau terfynol, argymhellion a'u gweithrediad eu monitro gan y Grŵp Llywodraethiant Archwilio a'u hadrodd i'r Cyd-bwyllgor Archwilio.

Mae Grŵp Llywodraethiant Corfforaethol yr heddlu yn cyfarfod bob chwarter er mwyn ystyried digonolrwydd trefniadau llywodraethu o fewn yr heddlu. Mae'r grŵp yn goruchwylio'r datganiad llywodraethiant blynyddol ac yn monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu sy'n deillio o adolygiadau blynyddol.

Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn darparu cyngor ar y rhaglen flynyddol o archwiliadau mewnol ac yn cynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n crynhoi canfyddiadau allweddol yr holl weithgaredd a chanlyniadau archwilio, gydag argymhellion ar gyfer gwella gwasanaethau y gweithredwyd arnynt ac yr adroddir arnynt i'r pwyllgor. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cymryd rhan mewn Rhaglen Archwilio Fewnol ar y Cyd bob blwyddyn.

## 8. Adolygu a gwerthuso trefniadau llywodraethiant

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gynnal adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu o leiaf unwaith y flwyddyn, gan gynnwys y system rheoli mewnol.

Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd yn cael ei lywio gan waith y Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol, uwch-reolwyr o fewn y sefydliadau sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol pennaeth yr archwiliad mewnol a hefyd gan sylwadau a wneir gan yr archwilydd allanol ac asiantaethau adolygu ac arolygiaethau eraill.

Y Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol sy'n bennaf gyfrifol am adolygu llywodraethu, gyda'r camau gweithredu'n cael eu hadolygu gan y Cyd-bwyllgor Archwilio. Mae'r cadeirydd a/neu gynrychiolydd y Cyd-bwyllgor Archwilio yn eistedd ar y Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol.

Mae'r Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn ac yn adolygu cynnydd yn erbyn meysydd i'w gwella, cynnydd ac argymhellion o weithgareddau arolygu Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi. Mae'r Bwrdd

Llywodraethiant Corfforaethol a'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn adolygu'r cynnydd a'r camau gweithredu a godwyd yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol.

Yn unol â'r rheoliadau, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, ar ôl nodi cyngor y Cyd-bwyllgor Archwilio, wedi adolygu effeithiolrwydd eu gwasanaeth archwilio mewnol. Mae'r gwasanaeth wedi cydymffurfio â holl Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Prif ddiben archwiliadau mewnol yw darparu sicrwydd i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl bod rheolaethau effeithiol ar waith er mwyn rheoli risgiau. I'r perwyl hwn, mae'r archwilydd mewnol yn rhoi barn flynyddol ar effeithiolrwydd y rheolaethau a adolygwyd gan y tîm archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn. Mae'r farn flynyddol hon, a nodir yn adroddiad blynyddol yr archwilydd mewnol, ymhlith y ffynonellau tystiolaeth allweddol sy'n cefnogi'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol. Mae Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/2025 fel a ganlyn:

BARN FLYNYDDOL Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL

"Rwy'n fodlon bod digon o waith archwilio mewnol wedi'i wneud i'm galluogi i ddod i gasgliad cadarnhaol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl.

Yn fy marn i, mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl brosesau rheoli a llywodraethu digonol ac effeithiol ar waith i reoli cyflawniad eu hamcanion.

Mae'r farn hon yn seiliedig yn unig ar y materion a ddaeth i sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac nid yw'n farn ar hyfywedd ariannol parhaus na'ch gallu i gyflawni rhwymedigaethau ariannol y mae'n rhaid i Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a Phrif Gwnstabl Dyfed-Powys eu cael o'i amrywiol ffynonellau sicrwydd.

BARN FLYNYDDOL ARCHWILIO CYMRU

*Option is provided/added by Audit Wales post review of the AGS*

Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at gyfarwyddwyr cyllid Cymru i gadarnhau disgwyliad Llywodraeth Cymru o ran yr amserlenni ar gyfer paratoi a chyhoeddi cyfrifon ariannol statudol ar gyfer 2024–2025 a'r blynyddoedd dilynol, o ystyried gohebiaeth yn ddiweddar gan Archwilio Cymru sy'n nodi eu hamserlen arfaethedig ar gyfer y tair blynedd nesaf a ddangosir yn y tabl isod. *Ed/Nicola to update and table below*

| Blwyddyn | I'w paratoi | Ardystiad Archwilio Cymru |
|---|---|---|
| 2023-2024 | 30 Mehefin 2024 | 30 Tachwedd 2024 |

| | | |
|---|---|---|
| 2025-2026 ymlaen | 30 Mehefin 2025 | 31 Hydref 2025 |
| | 30 Mehefin 2026 | 30 Medi 2026 |

**9. Casgliad a Datganiad Ymrwymiad**

Rydym yn fodlon bod yr adroddiad hwn yn sylwebaeth gywir ar y trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r heddlu ac o'u heffeithiolrwydd yn ystod y cyfnod hwn.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod yr holl gamau angenrheidiol yn cael eu cymryd i weithredu a chraffu ar lywodraethu effeithiol yn ystod 2025/2026 a bod y meysydd a nodwyd i'w gwella yn cael sylw priodol.

Darperir crynodeb isod o'r camau gweithredu sydd wedi'u cwblhau neu eu cyflawni, fel y'u rhestrwyd yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ar gyfer 2022/2023/2024/2025.

| | CAMAU GWEITHREDU | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|
| | **Camau Gweithredu 2022/2023** | | |
| 6.6 | Adolygu'r trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol sydd ar waith ar gyfer partneriaeth GanBwyll | Yn cael ei adolygu. Mae toriadau i gyllid a heriau ariannol yn y maes hwn yn parhau. Mae adolygiad rhanbarthol dan arweiniad Heddlu De Cymru ar ran holl heddluoedd Cymru ar y gweill. | WEDI'I GWBLHAU |
| | **Camau Gweithredu 2023/2024** | | |
| 7.1 | Adolygiad Cylch Cynllunio a Sicrwydd | Cyflwynwyd gwelliannau sydd eu hangen i gylch cynllunio a sicrwydd blynyddol yr heddlu, i gynnwys alinio perfformiad, gweithlu, model gweithredu ac amserlenni Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gofynion adrodd, ym mis Rhagfyr 2023. | WEDI'I GWBLHAU |
| 7.2 | Adolygiad Fforensig Digidol | Mae nifer yr achosion a'r dyfeisiau yn yr ôl-groniad wedi lleihau'n sylweddol ers dechrau 2023 (o ôl-groniad o 448 dyfais i 80 o ddyfeisiau, sy'n cynrychioli gostyngiad o 82%) yn dilyn gweithredu sawl newid hirdymor o fewn cynllun gweithredu'r Uned Fforensig Ddigidol, sy'n cynnwys:<br>- Cynnydd yn nifer y staff sy'n archwilio dyfeisiau a chyflwyno strwythur adnoddau dwy haen (rolau technegydd newydd) gan wneud y mwyaf o effeithlonrwydd prosesu.<br>- Caledwedd newydd sy'n caniatáu amseroedd prosesu cyflymach.<br>- Gweithredu seilwaith storio gwell sy'n caniatáu storio a throsglwyddo data effeithlon.<br>- Caffael meddalwedd newydd sy'n lleihau amseroedd adolygu â llaw.<br>- Mireinio prosesau a sicrhau strategaethau archwilio fforensig cymesur.<br>Derbyniodd yr adolygiad annibynnol drafft o Uned Fforensig Ddigidol gan TIAA asesiad cyffredinol o 'sicrwydd sylweddol' gydag arferion da wedi'u nodi heb unrhyw argymhellion ar gyfer gwella yn ofynnol. | WEDI'I GWBLHAU |
| 7.3 | Defnyddio Stopio a Chwilio/Defnyddio Grym | Cyflwynwyd a gweithredwyd gwelliannau mewn prosesau, adrodd a chofnodi stopio a chwilio i gynnwys dangosfyrddau Power BI newydd a ddefnyddir yn fewnol a phanel craffu newydd sy'n monitro'r defnydd o stopio a chwilio ar draws yr heddlu. | WEDI'I GWBLHAU |
| 7.4 | Cam-drin Domestig/Stelcio ac Aflonyddu | Cam-drin Domestig/Stelcio ac Aflonyddu - Mae adolygiadau eilaidd o'r holl gam-drin domestig/stelcio | WEDI'I GWBLHAU |

| | CAMAU GWEITHREDU | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|
| | | ac aflonyddu yn cael eu cynnal yn hytrach nag adolygiadau ar risg uchel a oedd yn wir yn ystod yr arolygiad. Mae staffio o fewn yr Uned Asesu Risg Eilaidd wedi newid i 10.45 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn lle'r swyddi sefydledig o saith. Mae'n amlwg bod y cynnydd yn y galw a heriau NICHE yn golygu nad yw'r adran yn gallu ymdopi â'r galw gyda llai nag 11 o staff. Mae'r datrysiad robotig i fod i gyrraedd ym mis Mehefin 2024, a byddwn yn ailasesu bryd hynny. Mae pob mater wedi'i godi yn Natganiad Rheoli'r Heddlu. Mae graddau risg newydd system asesu risg cam-drin domestig yn y broses o gael eu cyflwyno ac mae hyfforddiant sylweddol wedi'i gynnal ar gyfer aseswyr eilaidd a swyddogion cam-drin domestig. Mae pecyn hyfforddi'r ganolfan bregusrwydd wedi'i ddatblygu a bydd yn cael ei gyflwyno i staff yn yr haf. Mae data perfformiad yn cael ei gasglu o fewn y ganolfan i fonitro a rheoli ciwiau o fewn yr Uned Atgyfeirio Ganolog a'r Uned Asesu Risg Eilaidd gan ganiatáu mwy o ffocws ar ôl-groniadau yn ogystal â hynny cyflwynir adroddiadau yn nghyfarfod wythnosol y Prif Gwnstabl Cynorthwyol. Mae swydd y cydlynydd stelcio wedi'i llenwi ac mae swyddog gorchmynion sifil newydd yn ein helpu i wella'r ymateb i ddioddefwyr. Mae'r heddlu wedi darparu hyfforddiant Bywydau Diogelach i staff rheng flaen gyda'r gobaith y bydd hyn yn gwella darpariaeth gwasanaethau i ddioddefwyr. | |
| 7.5 | Archwilwyr Mewnol | Cyflwynodd yr heddlu dendr am gontract newydd i redeg o fis Medi 2024 ymlaen. Mae mesurau allweddol ychwanegol wedi'u cynnwys o fewn cwmpas y contract i sicrhau bod pob agwedd ar ddarparu gwasanaethau yn cael ei hadolygu ac yn cyrraedd y safon. | WEDI'I GWBLHAU |
| 7.6 | Cydymffurfedd Cod Rheolaeth Ariannol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth – Cydnerthedd Ariannol | Mae'r heddlu wedi cynnal asesiad pellach yn erbyn meini prawf Asesiad Cydnerthedd Ariannol a fydd yn cael eu trafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid Strategol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig nesaf ym mis Gorffennaf 2024. | WEDI'I GWBLHAU |
| 7.7 | Cydymffurfio â Chod Rheolaeth Ariannol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth – Arfarnu opsiynau | Gwneud gwaith pellach ar sicrhau gwerthusiadau opsiynau, gwireddu buddion, arweiniad, a chyfathrebu gyda chysylltiadau cryfach rhwng y Bwrdd Newid a Thrawsnewid a Chynllun Effeithlonrwydd yr Heddlu | WEDI'I GWBLHAU |
| | **Camau Gweithredu 2024/2025** | | |
| 8.1 | Canlyniadau priodol i ddioddefwyr | Mewn ymateb i argymhelliad adolygiad effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu, dylai'r heddlu gynnal adolygiad o'r prosesau a'r opsiynau technoleg a'r datrysiadau presennol er mwyn sicrhau bod yr heddlu'n cydymffurfio â Chod y Dioddefwyr ac unrhyw ofynion ychwanegol o dan model gweithredu cenedlaethol Ymgyrch Soteria a newidiadau posibl yn dilyn cyflwyno y Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion (2024). | WEDI'I GWBLHAU |
| 8.2 | Model Plismona Bro | Datblygu fframwaith perfformiad newydd (diwygiedig), Strategaeth Tîmau Plismona Bro, Strategaeth Atal a | WEDI'I GWBLHAU |

| | CAMAU GWEITHREDU | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|
| | | Strategaeth Iechyd Meddwl i gynnwys newidiadau a gyflwynwyd gan y Gofal Cywir Unigolyn Cywir. | |
| 8.3 | Llywodraethu corfforaethol a chyfarfodydd | Adolygu agendâu cyfarfodydd er mwyn sicrhau bod eitemau sefydlog ar yr agenda yn cael eu cynnwys ym mhob bwrdd strategol er mwyn gwella corfforaetholdeb. | WEDI'I GWBLHAU |
| 8.4 | Sicrwydd Gwybodaeth | Gwelliannau i gynnwys datblygu cofrestr asedau seiber a dangosfyrddau cryno ar gyfer risgiau seiberddiogelwch. | WEDI'I GWBLHAU |
| 8.5 | Cyfraddau rhoi'r gorau i alwadau nad ydynt yn rhai brys | Gwelliannau yng nghyfradd rhoi'r gorau i alwadau nad ydynt yn rhai brys a gwelliant yn y defnydd o THRIVE (bygythiad, risg, niwed, ymchwiliad, bregusrwydd ac ymgysylltu) i flaenoriaethu ymateb i alwadau. | WEDI'I GWBLHAU |
| 8.6 | Ymwybyddiaeth Llesiant | Yr heddlu i wella ymwybyddiaeth o gefnogaeth a mentrau llesiant i swyddogion a staff, yn enwedig y rhai sy'n delio â digwyddiadau trawmatig. | WEDI'I GWBLHAU |
| 8.7 | Archwilwyr Mewnol | Gwelliannau yn y broses archwilio mewnol i gynnwys adolygiad o gwmpasau archwilio mewnol ac adrodd ar argymhellion mewn byrddau strategol | WEDI'I GWBLHAU |
| 8.8 | Datganiad Llywodraethiant Corfforaethol | Adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol yn 2024. Y Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol i gynnwys:<br>Datganiad Llywodraethiant Corfforaethol sy'n sicrhau eglurder o ran y ffordd y mae'r ddwy gorfforaeth yn llywodraethu ar y cyd ac ar wahân;<br>Cod Llywodraethiant Corfforaethol sy'n nodi sut y bydd yr egwyddorion craidd yn cael eu gweithredu, gan ddisgrifio'r strategaethau, y trefniadau, yr offerynnau a'r rheolaethau er mwyn sicrhau llywodraethu da yn y ddwy gorfforaeth undyn;<br>Cynllun Llywodraethiant Corfforaethol sy'n diffinio'r paramedrau y bydd y corfforaethau undyn yn cynnal eu busnes oddi mewn iddynt;<br>Polisïau a gweithdrefnau ar wahân ar gyfer pob corfforaeth undyn, gyda phrotocolau lle maent yn gweithredu ar y cyd. | WEDI'I GWBLHAU |
| | **Camau Gweithredu 2025/2026** | | |
| 9.1 | Galw am fetio | Monitro ac adrodd ar y galw am fetio a'r galw cynyddol am atgyfeiriadau yn yr Uned Gwrthlygredigaeth i'w adrodd a'u hadolygu mewn cyfarfod chwarterol o'r bwrdd er mwyn monitro effeithiau/risgiau o'r cynnydd yn y galw yng nghyfarfodydd chwarterol Bwrdd Sicrwydd yr Adran Safonau Proffesiynol. Adolygiad blwyddyn lawn a gostyngiad yn y galw i'w adrodd ym mis Mawrth 2026. | |
| 9.2 | Cynllunio strategol a sicrwydd | Gwerthusiad o effeithiolrwydd y cylch cynllunio strategol a sicrwydd newydd yn dilyn cylch blwyddyn lawn i'w gynnal a'i adrodd erbyn 31 Mawrth, 2026. | |
| 9.3 | Llywodraethu | Diffyg corfforaetholdeb o ran fformat a strwythur agendâu, cofnodion a phapurau i gynnwys dileu eitemau sefydlog ar yr agenda mewn byrddau strategol i'w datrys erbyn mis Medi 2025. | |
| 9.4 | Y Gynghrair Fforensig | I adolygu'r risgiau ac effeithiau o oedi wrth adeiladu Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ac achrediad | |

| | CAMAU GWEITHREDU | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|
| | | aflwyddiannus ac i adrodd ar yr effeithiau erbyn mis Medi 2025. | |
| 9.5 | Cofnodi troseddau | Y risgiau a'r effaith ar newidiadau mewn strwythurau sefydliadol, modelau gweithredu a newidiadau cenedlaethol ar gofnodi troseddau a chymhwyso canlyniadau i'w gwerthuso a'u hadrodd erbyn mis Medi 2025. | |
| 9.6 | Datrysiad rheoli cysylltiadau | Cynllun gweithredu er mwyn unioni'r risgiau sy'n gysylltiedig â thoriadau cyflenwad wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio yn dilyn gweithredu datrysiad rheoli cysylltiadau newydd i'w ddatblygu a'i fonitro trwy gyfarfodydd Bwrdd Strategol TGCh. Datrys y materion i'w gwblhau a'u hadrodd erbyn mis Medi 2025. | |
| 9.7 | Parhad busnes | Proses parhad busnes newydd i'w chwblhau erbyn mis Medi 2025 gydag amserlen profi ac ymarfer i'w chwblhau erbyn mis Mawrth 2026 (ar gyfer y cyfnod blwyddyn) | |
| 9.8 | Model Gweithredu'r Heddlu | Gwerthusiad o effeithiau ac asesiad o effeithiolrwydd newidiadau i'w adrodd erbyn mis Mawrth 2026. | |

**Barn**

Ni all unrhyw ddatganiad rheolaeth fewnol roi sicrwydd llwyr yn erbyn colled sylweddol; bwriad y datganiad hwn yw rhoi sicrwydd rhesymol.

Ar sail yr adolygiad o'r ffynonellau sicrwydd a nodir yn y datganiad hwn, rydym yn fodlon bod gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl drefniadau llywodraethu boddhaol ar waith, gan gynnwys systemau priodol o reolaeth fewnol a rheoli risg sy'n hwyluso ymarferiad effeithiol swyddogaethau.

**Casgliad**

Mae'r adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl dros y flwyddyn ddiwethaf wedi nodi nifer o feysydd yn y Gwasanaethau Plismona a fyddai, o'u cyflawni, yn dangos gwell atebolrwydd, tryloywder a threfniadau gweithio effeithiol yn ogystal â chryfhau'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith ymhellach.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi ymrwymo i broses o wella llywodraethu'n barhaus, a byddant yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y camau gweithredu a restrir uchod, a byddant yn parhau i gael eu monitro drwy gydol 2025/2026 gan eu bod yn parhau'n ddilys ac yn peri pryder. Bydd y gwaith o fonitro eu gweithrediad yn rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

| | |
|---|---|
| Dafydd Llywelyn | Ifan Charles |
| **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys** | **Prif Gwnstabl Dros Dro** |

Carys Morgans
**Prif Weithredwr a Swyddog Monitro**

Gary Phillips
**Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro**

Nicola Davies
**Prif Swyddog Ariannol Dros Dro**

Edwin Harries
**Cyfarwyddwr Cyllid**